ISSN 2053-5171
Rhifyn 16
Gwanwyn 2020

# Herio Materion Crefyddol

**John Holdsworth**
ar Dieithriaid: Eglwyseg ac 1 Pedr

**Bridget Nichols**
ar Y Geni a'r Croeshoeliad mewn Celf Gristnogol: Gweld, Dehongli ac Addoli

**Mark Graves**
ar Y Meddwl, yr Ymennydd a'r Enaid sy'n Uno

**Francis Stewart**
ar Crefydd Ymhlyg: Ymagwedd Newydd at Astudio Crefydd?

**Jeff Astley**
ar Dirgelwch Anhraethol Duw?

**Jessie Fubara-Manuel ac Elijah Obinna**
ar Gwnaed ar Ddelw Duw: Profiad Merch ag Anabledd yn Nigeria

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch. Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

# Herio Materion Crefyddol

## Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

## Rhifyn 16 Gwanwyn 2020

## Cynnwys


Dieithriaid: Eglwyseg ac 1 Pedr 2
John Holdsworth

Y Geni a'r Croeshoeliad mewn Celf Gristnogol: Gweld, Dehongli ac Addoli 8
Bridget Nichols

Y Meddwl, yr Ymennydd a'r Enaid sy'n Uno 15
Mark Graves

Crefydd Ymhlyg: Ymagwedd Newydd at Astudio Crefydd? 22
Francis Stewart

Dirgelwch Anhraethol Duw? 29
Jeff Astley

Gwnaed ar Ddelw Duw: Profiad Merch ag Anabledd yn Nigeria 37
Jessie Fubara-Manuel ac Elijah Obinna



**Golygydd**
Yr Athro Jeff Astley (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Lincoln)

**Golygydd Cymraeg a Golygydd Rheolaethol**
Dr Tania ap Siôn (Prifysgol yr Esgob Grosseteste, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

**Ymgynhorwyr Golygyddol**
Y Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)
Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)
Libby Jones (Canolfan San Silyn, Wrecsam)
Yr Athro William K. Kay (Prifysgol Caer)
Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)
Phil Lord (Arweinydd System, GwE)
Yr Athro Peter Neil (Prifysgol yr Esgob Grosseteste)
Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)
Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol of Warwick)



Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Sioned Jones



Herio Materion Crefyddol
Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD
Ffôn: 01248 680131
E-bost: smc.taniaapsion@gmail.com
http://www.st-marys-centre.org.uk/

St Peter's Saltley Trust
Grays Court
3 Nursery Road
Edgbaston
Birmingham B15 3JX
Telephone 0121 427 6800
E-bost: director@saltleytrust.org.uk
https://www.saltleytrust.org.uk/

Canolfan San Silyn
Tŷ'r Coleg
Rhes y Deml
Cymru,
Wales
LL13 8LY
E-bost: tania.apsion@bishopg.ac.uk
https://stgilescentre.org/cy/



Caiff fersiwn Gymraeg *Herio Materion Crefyddol* ei noddi a'i reoli gan Ganolfan San Silyn Wrecsam – https://stgilescentre.org

Mae *Herio Materion Crefyddol* yn gyfnodolyn ar-lein, mynediad agored am ddim a luniwyd i gefnogi athrawon a myfyrwyr sy'n dilyn Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch, gan ddod ac ysgolheictod ac ymchwil diweddar a pherthnasol o'r Brifysgol i'r ystafell ddosbarth lefel A. Os oes unrhyw bynciau yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y cyfnodolyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 16 Gwanwyn 2020
© John Holdsworth

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Dieithriaid: Eglwyseg ac 1 Pedr

John Holdsworth

*Yn 1981 gwelwyd dechreuad cyfeiriad newydd yn astudiaeth 1 Pedr, a oedd fel pe wedi cyrraedd lle amhosibl cyn hynny. Mae astudiaethau cymdeithasol gan Elliott a Goppelt wedi mapio ffordd newydd ymlaen sydd wedi helpu i dynnu sylw at ddiwinyddiaeth 1 Pedr, ac yn arbennig ei eglwyseg, ac sydd wedi helpu i ail-ddiffinio astudiaeth eglwysegol. Cynigiodd hyn bosibilrwydd deongliadol newydd hefyd.*

*Cysylltiadau â'r Fanyleb:*
*CBAC Uned 6: Astudiaethau Testunol (Y Testament Newydd); Thema 3: Llenyddiaeth y Testament Newydd – Y Llythyrau (1 Pedr), adran C.*
*AQA 3.2.2B (Cristnogaeth): Adran A (Mynegiannau o Hunaniaeth Grefyddol).*

**Cyrraedd y lle amhosibl**

Yn y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif, cwestiynau beirniadol yn hytrach na rhai diwinyddol oedd fwyaf amlwg mewn astudiaeth o 1 Pedr. Roedd y cwestiynau hynny'n parhau oherwydd nid oedd yn ymddangos fod cytundeb ymhlith ysgolheigion am sut i'w hateb. Roedd categorïau traddodiadol cyflwyniad beirniadol i gyd yn cael eu herio. Roedd anghytundeb am ddyddiad ei ysgrifennu, tarddle'r ysgrifennu, pwy oedd yr awdur neu ai oedd yn wir yn ffugenwol, a ffurf yr ysgrifennu. A llythyr oedd neu litwrgi? A oedd yn undod neu a oedd dwy ddogfen wedi'u hatodi wrth ei gilydd, ac os felly pam? Gan nodi ei bod yn ymddangos mai dwy brif thema yn 1 Pedr oedd bedydd a dioddefaint: a oedd hon yn ddogfen am ddioddefaint gyda chyfeiriadau wrth fynd heibio at addoliad; neu a oedd yn hytrach yn ddogfen am addoliad gyda chyfeiriadau wrth fynd heibio at ddioddefaint?

Digon hawdd i arolwg canmlwyddiant o'r Testament Newydd honni: 'Mewn ystyr real iawn yr Epistol bychan o'r enw 1 Pedr yw llygad storm astudiaethau'r Testament Newydd' (Neill, 1966, t. 343). Gan nodi fod dau waith awdurdodol diweddar wedi dyddio'r gwaith ar OC65 ac 112, aeth yr awdur yn ei flaen, 'Os gall dau ysgolhaig gyrraedd canlyniadau sy'n

hollol wahanol, y ddau ar sail dulliau gwyddonol damcaniaethol, mae'n rhaid bod rhywbeth mawr wedi mynd o'i le yn rhywle' (Neill, 1966, t. 344).

**Eglwyseg heb gyd-destun**

Yr hyn oedd wedi mynd o'i le oedd bod rhywbeth ar goll o'r cwestiynau a oedd yn cael eu gofyn, ac efallai eu bod yn cael eu gofyn o bersbectif nad oedd yn gysylltiedig â thrafodaeth ddiwinyddol. Ar yr wyneb, mae'n ymddangos fod gan Bedr rywbeth pwysig i'w ddweud am natur y gymuned Gristnogol, ond os na all y brif drafodaeth ysgolheigaidd leoli'r gymuned honno mewn amser na chyd-destun, ac na all gytuno ar y cymhelliad y tu ôl i'r llythyr, yna mae'n anodd dechrau ymholiad diwinyddol heblaw drwy ddiystyru'r cyd-destun yn llwyr a dim ond darllen diwinyddiaeth y llythyr yn nhermau ei berthnasoedd llenyddol, a chael neges 'ysbrydol' ohono, heb fod yn gysylltiedig ag unrhyw sefyllfa benodol. Os oedd eglwyseg i symud ymlaen, os oedd y cysyniad o eglwys i'w ddeall a'i fynegi o safbwynt diwinyddol, roedd yn rhaid i rywbeth newid.

Yn wir, roedd eglwyseg yn yr ugeinfed ganrif yn cyrraedd pen draw trywydd ofer. Roedd wedi dod yn fwy o ffurf hanesyddol o ymholiad, yn ymwneud â threfnu, a datblygiad litwrgaidd a gweinidogol, yn hytrach na diwinyddiaeth go iawn. Mae astudiaeth yn 1961 o eglwyseg y Testament Newydd yn darlunio'r pwynt yn dda (Schweizer, 1961, tt. 110-112). Mae'n neilltuo ychydig dros ddwy dudalen i 1 Pedr ac mae'r drafodaeth bron yn gyfan gwbl am beth sydd gan 'y traddodiad' yno yn gyffredin, neu'n ddyledus i Paul. Y cyfan yw'r gweddill yw astudiaeth fer o'r sôn am yr henuriaid (5:1, 5). Yr hyn oedd ar goll oedd pwnc pwysig hunan-ddealltwriaeth eglwys: y ffordd yr oedd yn ei disgrifio'i hun ac yn ei chysylltu ei hun â'i chyd-destun a'r traddodiadau oedd wedi rhoi bod iddi. Yn astudiaeth Schweizer nid yw'n caniatáu cyd-destun fel rhywbeth sy'n ddiwinyddol ffurfiannol.

**Cartref i'r digartref**

Cyflwynwyd agwedd hollol newydd gan J. H. Elliott yn 1981. Yn *A home for the homeless*, edrychodd yn fanwl ar ddwy agwedd o 1 Pedr o safbwynt *cymdeithasegol*, gyda'r hyn roedd yn ei alw'n 'ddychymyg cymdeithasegol' (Elliott, 2005 [1981], t. 5). Yr agwedd gyntaf oedd y ffordd roedd yn siarad â darllenwyr y llythyr fel *paroikia* (y gair Groeg sy'n rhoi'r gair Saesneg 'parish' i ni) a *parepidemoi* (1:1, 2:11), sy'n aml yn cael ei gyfieithu fel 'alltudion a dieithriaid'; a'r ail oedd y termau oedd yn perthyn i'r gair Groeg *oikos*, s'n golygu tŷ neu deulu (2:5, 4:17, 2:5, 2:18, 3:7, 4:10), y ddau beth yn nodweddiadol o 1 Pedr.

Roedd Elliott yn anghymeradwyo astudiaethau nad oedd yn cymryd o ddifrif defnydd normal y termau hynny mewn bywyd arferol yn Asia Leiaf. Nododd sut roedd rhai astudiaethau wedi cyfieithu'r termau *paroikia a parepidemoi*, yn ôl rhagdybiaethau heb sail ieithyddol, i olygu 'pererinion'; neu wedi ychwanegu geiriau nad oedd wedi'u cynnwys yn y Greg, fel 'ar y ddaear hon' (tt. 41, 42). Gofynnodd i union sefyllfa'r gynulleidfa gael ei chymryd o ddifrif, ac i'r testun gael ei gyfieithu heb ddehongliad pleidiol fel hyn. Roedd yn amheus o'r hyn a alwodd yn dueddiadau ysbrydoleiddio, a oedd yn disgrifio'r gynulleidfa fel estroniaid ar y ddaear hon o gartref nefol i'r lle roeddent yn mynd ar bererindod yn y diwedd (fel, er enghraifft, yn Hebreaid 11:16). Dadleuodd, yn hytrach, fod '1 Pedr yn llythyr wedi'i gyfeirio at estroniaid preswyl a dieithriaid oedd yn ymweld a oedd, ers eu troi i Gristnogaeth yn dal i gael eu hunain ddim yn perthyn yn unman. Maent yn dal yn *paraoikoi* digartref yn chwilio

am *oikos*' (Elliott, 2005, t. 49). Yn wir, mae ei ddadl yn datgan ychydig mwy na hynny: fod y dieithriaid hyn, drwy ddod yn Gristnogion, mewn perygl o gael eu dieithrio ymhellach. Felly, bydd oedd hynna'n ei feddwl?

Dangosodd fod *paraoikia* yn derm technegol am ddosbarth arbennig o bobl yn yr Ymerodraeth Rufeinig, y disgrifid orau fel 'dieithriaid preswyl'. Mewn geiriau eraill, pe bai gan dderbynyddion y llythyr basbortau, dyna beth fyddai wedi'i stampio arnyn nhw. Dyma eu statws mewn cymdeithas. Roedd astudiaeth gymdeithasegol Elliott yn gosod y bobl hyn (*paroikia*) fel rhai o darddiad a galwedigaethau cymysg a oedd yn rhannu teimlad o gael eu gweld fel estroniaid, yn aml gydag amheuaeth ac weithiau gyda gelyniaeth lwyr (tt. 78-83). Mae'n debyg eu bod yn teimlo'n agored i niwed, wedi'i heithrio ac ar yr ymylon (tt. 102-105). Dadleuodd fod hyn mae'n siŵr wedi dylanwadu ar pam y gwnaethon nhw ymuno â'r eglwys yn y lle cyntaf: grŵp crefyddol nad oedd ganddyn nhw gysylltiad traddodiadol nac ethnig ag ef. Mae'n rhaid i astudiaeth gymdeithasegol roi cliwiau ynghylch beth oedd yr eglwys iddyn nhw mewn gwirionedd. Daeth o hyd i'r ateb yn y grŵp o eiriau *oikos*, a dangosodd fod casgliad anarferol o'r rhain yn 1 Pedr (gweler uchod). O fewn categorïau ei astudiaeth gymdeithasegol, gallodd ddisgrifio'r eglwys yn 1 Pedr fel, yn dechnegol, 'sect dröedigaeth' (t. 75) a defnyddiodd ddisgyblaethau cymdeithaseg i ymchwilio ymhellach i briodweddau grwpiau o'r fath. O'r astudiaeth honno, roedd hi'n glir fod sectau yn cynnig: lle i berthyn, lle o hunaniaeth, lle i fagu hunan-barch, a lle o ble y gellid ymgysylltu â'r gymuned heb fod yn eglwysig mewn termau naill ai amddiffynnol neu ddadleuol, a cheir digon o dystiolaeth am hyn drwy 1 Pedr. Gan nodi fod rhai sectau'n encilio o'r byd, fel yn Qumran, tra bod eraill yn cymryd rhan lawn ynddo, dadleuodd fod 1 Pedr yn ymgysylltu â'r byd.

**Codau'r teulu a strwythur yr eglwys**

Felly gall yr hyn sydd gan awdur 1 Pedr i'w ddweud am y codau teulu fel y'u gelwir neu'r codau safle (2:13-3:12, ac efallai 5:1-7) gael eu darllen yn nhermau sut dylai'r eglwys weithredu a dechrau disgrifio'i threfn o ganlyniad i'w hunan-ddealltwriaeth. Mae 'teulu' yn drosiad cyfoethog i eglwys 1 Pedr (4:17). Mae trafodaeth feirniadol ynghylch a oedd y codau i'w defnyddio'n fewnol neu'n allanol. Ai eu bwriad yw cyflwyno Cristnogion i fyd a chymdeithas ddrwgdybus; neu ai ffordd ydynt o ddisgrifio trefn fewnol yr eglwys gan ddefnyddio'r teulu fel model newydd a chreadigol o eglwys? Mae Elliott yn dadlau'n bennaf dros yr ail, ac er y gall y codau fod â swyddogaeth wahanol mewn cyd-destunau eraill yn y Testament Newydd (er enghraifft Colosiaid 3:18-25, Effesiaid 5:22-6:9), na ddylai beirniaid gymryd 'un maint i bawb' o ran esboniad. Mae gosodiad 1 Pedr yn benodol.

**Goppelt: Cristnogion yn eu gosodiad**

Bu'n rhaid i astudiaeth o 1 Pedr ers 1980 ystyried y gwaith hwn, a hefyd gwaith Leonhard Goppelt, a gyhoeddwyd yn yr Almaen yn 1979 a'i gyfieithu i Saesneg yn 1993, y gwaith hwnnw hefyd yn canolbwyntio ar natur y gymuned Gristnogol yn Asia Leiaf yn ei osodiad. (Gweler, er enghraifft: Achtemeier, 1996; Perkins, 1995; Brown, 1984; Boring, 1999, Chester and Martin, 1994). I Goppelt, prif thema'r llyfr yw 'bodolaeth Cristnogion mewn cymdeithas heb fod yn Gristnogol; a goresgyn y gymdeithas honno drwy fod yn barod i ddioddef gorthrwm' (Goppelt, 1993, t. 19). Yn

groes i astudiaethau cynharach, ystyrir erledigaeth fel mater eilaidd. Y bwriad diwinyddol sydd fwyaf pwysig. 'Nid yw'r llythyr yn edrych ar sefyllfa'r Cristnogion o safbwynt ei amgylchedd fel "erledigaeth", ond o safbwynt Crist fel "bod yn ddisgybl" (t. 38). Mae'n cymryd o ddifrif dynodiad ei gynulleidfa fel y "dieithriaid sydd ar wasgar" (1:1). Maent yn bobl ar wasgar, rhai dros dro (*parepidemoi*) a rhai yn fwy parhaol (*paroikia*). Nid oes ganddynt hawliau fel dinasyddion na gwesteion (t. 64).

Mae'r nifer uchel o gyfeiriadau at y teulu a'r aelwyd yn y llythyr (gweler uchod) yn arwydd o hunan-ddealltwriaeth eglwys sy'n teimlo'n unedig â Christ, pennaeth y teulu, yn ei ddioddefaint, ac mae'n nodi fod y ferf Roeg yn 2:4 sy'n dynodi gwrthodiad Crist yn rhangymeriad presennol (*apodedokkimasmenon*): mae dioddefaint Crist yn parhau yn eu gwrthodiad nhw fel *paroikia* (t. 137). Mae'r 'eglwys' hon yn ei gweld ei hun nid fel sefydliad yn yr hen ystyr, ond yn hytrach fel teulu, (1:3, 1:14, 1:17, 1:22f, 2:2, 2:4, 2:10, 2:17, 2:18-3:9, 4:8-10, 4:14, 4:17, 5:13). Ceir nifer o dermau Groeg gyda'r rhagddodiad sym, fel y disgrifiad o'r awdur yn 5:1 fel *sym-presbyteros*, h.y. cyd-henuriad. Mae'r eglwys yn *adelphotis* (2:17 a 5:9), yn llythrennol 'brawdoliaeth' (er ei fod yn cael ei gyfieithu fel arfer yn y fersiynau modern Cymraeg i 'gyd-Gristionogion').

Caiff y gorchymyn, 'gadewch i'ch hunain ddod', (*proserchomai*, 2:4, 6), medd Goppelt, ei ddefnyddio yn yr Efengylau Synoptig, yn enwedig Mathew, i ddynodi uno ag Iesu (t. 139). Ei farn ef yw bod gogwydd y llythyr yn gadarnhaol ac yn ymddiheurol tuag at y byd. Mae'n credu fod 1 Pedr yn 'cynhyrchu rhywbeth newydd' drwy fod yn sect, sydd, yn wahanol i un y Qumran, yn edrych i gyfeiriad y byd, ond yn gyffredin â Qumran, mae ganddo ddealltwriaeth eschatolegol o'r angen am sancteiddrwydd (Goppelt, 1993, t. 154).

**Meddwl eglwysegol newydd**

Yn y termau hyn, mae gan fedydd a dioddefaint le allweddol yn eglwyseg 1 Pedr. Yn wahanol i grefyddau cyfoes eraill, honiad Cristnogaeth yw nid fod eu Duw yn well nag eraill, neu'n fwy llwyddiannus, neu'n fwy tebygol o atal newyn a thrychineb neu ddod â ffrwythlondeb ac iechyd. Yn hytrach fod ystyr bywyd i'w gael rywsut mewn dioddefaint, ac yn unigryw yn nioddefaint Iesu, person go iawn y gallai dilynwyr uniaethu ac ef ac 'ymuno'. Ac mae gan ddioddefaint y person go iawn hwn arwyddocâd cosmig hefyd mewn Duw a all fynd i Uffern ac yn ôl (3:18, 19) ac sydd wedi paratoi etifeddiaeth i'w ddilynwyr yn y nefoedd (1:4, 5:4). Disgrifir hyn yn aml, felly, fel cymuned eschatolegol.

Mae bedydd, yn 1 Pedr, sef cael eich derbyn i'r teulu hwn, yn gysylltiedig â'i swyddogaethau cymdeithasol. Mae'n ddatganiad o fwriad, yn uniaethu bwriadol â Christ, yn gofyn am drawsnewid bywyd i ymarfer ymddygiad tebyg i Grist. Mae'n ddatganiad o hunaniaeth ac o berthyn, mae'n sicrhau cydlyniant ac undod cymunedol. Ar lefel ymarferol iawn, mae'n dderbyniad o berygl aflonyddu cymdeithasol pellach neu hyn yn oed drais. Mae'n cymryd croes. Mae angen i gwestiynau am ffurfiau gweinidogaeth a'i gweithredu mewn ymarfer gymryd trosiad y teulu o ddifrif.

Daeth eglwyseg i gael ei gweld nid yn gymaint yn nhermau datblygu strwythur eglwys â datblygu dealltwriaeth yr eglwys. Nid yw diddordeb mewn addoliad yn gymaint o ddadl am ddatblygu ffurfiau litwrgi, ond yn hytrach beth yw ei swyddogaeth. Mae eglwyseg

yn llawer agosach at Gristoleg a phwy yw Iesu i'r gymuned, yn hytrach na phennu'r traddodiadau llenyddol y gellir eu holrhain yn y testun. Mae astudiaeth o dueddiadau diweddar mewn eglwyseg yn 1 Pedr felly nid yn unig yn taflu goleuni newydd ar 1 Pedr ond hefyd yn helpu i ailddiffinio'r agweddau beirniadol at eglwyseg ei hun ac yn cyfrannu at bosibiliadau deongliadol newydd. Roedd ysgolheictod hŷn yn siarad o sefyllfa lawer mwy sefydlog nag y mae cymdeithas yn gyfarwydd â hi erbyn hyn. Mae Cristnogion bellach yn llawer mwy tebygol o fod ar wahân: ar wasgar, naill ai dros dro neu'n barhaol. Mae posibiliadau gwirioneddol o gysylltiadau ag astudiaethau cymdeithasegol diweddar (fel Goddhart, 2017, er enghraifft yn archwilio'r gwahaniaeth rhwng yr hyn mae'n ei alw'n 'y rhai'n rhywle' a'r rheini sydd 'yn unrhyw le'). Mae'r syniadau diwinyddol o amgylch alltudiaeth, byrhoedledd, amrywiaeth ddiwylliannol a bod yn ddieithryn hefyd yn llawer mwy tebygol o daro tant, ac felly dod ag 1 Pedr i le amlwg unwaith yn rhagor.

## Geirfa

*eglwyseg:* yr ymholiad diwinyddol am natur yr eglwys. Yn draddodiadol, roedd hyn yn cael ei wneud drwy dystiolaeth ymarferol o drefn, litwrgi a gweinidogaeth. Mae'r erthygl hon yn awgrymu datblygiad sy'n breintio hunan-ddealltwriaeth eglwys yn y cyd-destun yma.

*esboniadau* yw'r astudiaeth o sut mae testun yn cael ei ddehongli a'i gyhoeddi.

*eschatolegol:* yn llythrennol, yn perthyn i ddiwedd oes. Yng nghyd-destun y Testament Newydd dyna'i ystyr plaen weithiau. O'i ddefnyddio am gymuned mae'n cyfeirio at rywun sy'n byw 'yn barod' yn y 'ddim eto'.

*yn cyfeirio at y byd, yn ymgysylltu â'r byd:* Gall cymunedau Cristnogol fodoli o fewn y byd cymdeithasol cyffredin, neu fel arall gallant dynnu'n ôl ohono. Os ydynt yn bodoli o fewn y byd gallant ddewis naill ai ymgysylltu â'r byd neu ei ystyried yn elyniaethus.

*ysgrifennu amddiffynnol* neu *drafodaeth*: ceisio cymeradwyo'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio, yn hytrach na *polemeg* neu *ddadl*, sy'n ceisio gwrthbrofi honiadau gwirionedd yr hyn sy'n cael ei ymosod arno.

## Pwyntiau trafod

1. Ydych chi'n meddwl mai'r ffordd orau o ddisgrifio eglwysi yw (a) drwy ddiffiniadau; (b) delweddau, lluniau a symbolau; (c) ffenomena y gellir eu gweld fel litwrgïau neu batrymau gweinidogaeth; neu (d) defnyddio categorïau cymdeithasegol? Beth mae pob un o'r dulliau hyn yn ei ychwanegu?
2. Ydych chi'n meddwl mai neges ysbrydol yw 1 Pedr yn y bôn, ac mai dim ond cyd-ddigwyddiad yw'r defnydd o dermau fel *paraoikia*?
3. Beth ydych chi'n meddwl sy'n cael ei awgrymu drwy gyfeirio at yr eglwys fel teulu?

## Cyfeiriadau


Achtemeier, Paul J. (1996). *1 Peter* (Hermeneia Commentaries). Minneapolis, Minnesota: Fortress Press.

Boring, M. Eugene. (1999). *1 Peter* (Abingdon New Testament Commentaries). Nashville, Tennessee: Abingdon Press.

Brown, Raymond E. (1984). *The churches the apostles left behind*. New York, Paulist Press.

Chester, Andrew and Martin, Ralph P. (1994). *The theology of the letters of James, Peter and Jude*. Cambridge: Cambridge University Press.

Elliott, John H. (2005 [1981]). *A home for the homeless*. Eugene, Oregon: Wipf and Stock.

Goppelt, Leonhard. (1993). *A commentary on 1 Peter* (English Edition). Grand Rapids Michigan: Eerdmans.

Goodhart, David. (2017). *The road to somewhere*. London: Random House.

Neill, Stephen. (1964). *The interpretation of the New Testament 1861-1961*. London: Oxford University Press.

Perkins, Pheme. (1995). *First and Second Peter, James and Jude* (Interpretation Commentaries). Louisville, Kentucky: John Knox Press.

Schweizer, Edouard. (1961). *Church Order in the New Testament*. London: SCM Press.


*Ar hyn o bryd mae Dr John Holdsworth yn Gyfarwyddwr Gweinidogaeth i Esgobaeth Anglicanaidd Cyprus a'r Gwlff. Bu'n darlithio mewn Astudiaethau Beiblaidd a Chyfathrebu ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd, a bu'n Bennaeth Coleg Mihangel Sant, Llandaf, Athrofa yr Eglwys yng Nghymru. Cyhoeddodd sawl llyfr ar themâu beiblaidd a chyfathrebu: yn fwyaf diweddar,* Everyday Conversations with Matthew *(SCM Press, 2019).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 16 Gwanwyn 2020
© Bridget Nichols

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Y Geni a'r Croeshoeliad mewn Celf Gristnogol:Gweld, Dehongli ac Addoli

Bridget Nichols

*Mae'r erthygl hon yn trafod rôl celf Gristnogol mewn ffurfio hunaniaeth Gristnogol a phatrymau defosiwn, gan ganolbwyntio ar enedigaeth Crist a'i groeshoeliad.*

*Cyswllt â'r fanyleb:*
*EDEXCEL Papur 4, Opsiwn 4B: Cristnogaeth; 3.2 Amrywiaeth arfer mewn mynegiannau creadigol o hunaniaeth grefyddol (a) Y darlun o'r Geni a'r croeshoeliad mewn celf Gristnogol a'i ddehongliadau a'i rôl mewn defosiwn Cristnogol.*

**Cyflwyniad**

Mae genedigaeth a chroeshoeliad Crist yn ddigwyddiadau allweddol yn hanes iachawdwriaeth Gristnogol ac mae ganddynt statws breintiedig yn natblygiad Cristoleg. Yn eu credoau, mae Cristnogion yn arddel eu datganiadau cred sylfaenol, sef bod Crist wedi'i eni fel bod dynol, ei fod wedi cael ei farnu gerbron Peilat a'i roi i farwolaeth ar y groes, a'i fod wedi codi eto o farw.

Nid genedigaeth a marwolaeth Crist yw'r unig erthyglau ffydd, fodd bynnag. Y rhain mae'n debyg hefyd yw elfennau mwyaf emosiynol bwerus y stori Gristnogol. Byddai arlunwyr a oedd wedi'u dewis fel eu testun wedi ennyn emosiynau dynol dwfn cariad, addoliad, rhyfeddod, galar, arswyd a ffieidd-dod. Maent wedi dal agweddau gorau a gwaethaf y natur ddynol, weithiau'n gwisgo'u cymeriadau yng ngwisg cyfnod yr arlunydd ac yn gorfodi'r gwylwyr i uniaethu â'r olygfa a'r hyn sy'n digwydd. Cafodd rhai o'r gweithiau a ystyriwn eu cynhyrchu mewn oes Gristnogol a byddent wedi bod yn eglur i'r mwyafrif. Bellach maent yn aml yn anhygyrch i wylwyr a all fod yn gwerthfawrogi eu techneg a'u harddwch, ond ddim yn adnabod y testun. Byddwn yn edrych yn fyr hefyd ar rai gweithiau a gynhyrchwyd yn llawer nes at y presennol, mewn oes sy'n cael ei hystyried weithiau yn ôl-Gristnogol. Gall gweithiau fel hyn, hefyd,

yn aml gyflwyno sylwebaeth rymus ar hanes a chymdeithas, a heriau newydd i gymunedau ffydd.

**Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl gan gelf Gristnogol?**

Mae pobl yr unfed ganrif ar hugain yn byw mewn diwylliant gweledol iawn, lle mae llawer iawn o'u gwaith a'u hamser hamdden yn golygu gweld delweddau symudol ar sgriniau dyfeisiau digidol lu. Eto nid ydynt yn ddi-hid o weithiau celf, ac mae arddangosfeydd arbennig gan yr orielau mawr yn denu tyrfaoedd enfawr. Un o lwyddiannau annisgwyl yr 20 mlynedd ddiwethaf oedd arddangosfa yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain yn 2000 o'r enw 'Seeing Salvation' (Finaldi, 2000; MacGregor & Langmuir, 2000). Daeth niferoedd anferth o ymwelwyr drwy'r drysau, a dim ond rhai o'r rhain fyddai wedi gallu dehongli'r themâu a'r delweddau Beiblaidd, a'r ddrysfa o symbolaeth ddiwinyddol oedd yn cynrychioli'r ymateb i'r stori Gristnogol dros y canrifoedd (Jensen, 2004, tt. ix, 1-6).

Byddai llawer o'r gweithiau celf oedd yno wedi ymddangos allan o gyd-destun i'w cynhyrchwyr, a'u cynulleidfaoedd gwreiddiol. Roedd celf grefyddol i'w gweld mewn eglwysi, ac mewn cymdeithas Orllewinol hyderus Gristnogol a flodeuodd i mewn i'r ddeunawfed ganrif, yn yr eglwysi y byddai pobl yn dod ar ei thraws. Er i'r traddodiad Protestannaidd ar ôl y Diwygiad symud i ffwrdd o gyfoeth gweledol crefydd diwedd yr oesoedd canol, parhaodd yr Eglwys Gatholig i noddi'r celfyddydau.

Yn ei hamser ni, mae eglwysi o bob traddodiad wedi adnewyddu eu diddordeb a'u cefnogaeth i'r celfyddydau, ond mae'r berthynas rhwng artistiaid a chymunedau sy'n gallu comisiynu gwaith newydd wedi newid. Mae'r gwaith a gynhyrchir yn aml yn haniaethol, ac er y gallai hawlio dimensiwn ysbrydol, mae'n bosibl na fydd yn gwneud datganiad neu ymrwymiad Cristnogol.

**Edrych ar gelf Gristnogol: O arsylwi i addoli**

Mae celf Gristnogol yn tynnu ar gasgliad cyfoethog o ffynonellau ac mae'n defnyddio iaith symbolaidd astrus. Bydd cynnwys rhywfaint o'r gwaith a gynhyrchwyd rhwng y drydedd ganrif a'r ddeg a'r ddeunawfed yn ddealladwy i wylwyr modern sy'n gyfarwydd â'r Beibl. Fodd bynnag, bydd y cyfeiriadau at rannau o'r Testament Newydd Apocryffaidd ac at themâu defosiynol o'r canol oesoedd a dechrau'r cyfnod modern, yn aneglur. Ychydig o bobl sydd wedi darllen Efengyl Apocryffaidd (Proto-efengyl) Iago, sy'n cyflwyno nodweddion a chymeriadau ychwanegol i hanes genedigaeth Crist, yn cynnwys bydwragedd. Bydd llai fyth yn ymwybodol o weledigaethau'r cyfrinydd Swedaidd, Bridget o Sweden, neu'r defosiwn i bum archoll Crist (Murray & Murray, 2004). Ni allwn gymryd yn ganiataol y bydd gwaith yn ei ddatgelu ei hun i ni dim ond trwy edych arno, ac mae'n werth treulio amser gydag ystod ardderchog o ysgrifennu am gelf Gristnogol i ddeall yr iaith sy'n sail i'n gweld (Drury, 1999, tt. xii-xiii). Yn yr hyn sy'n dilyn, byddaf yn rhoi sylwadau ar rai enghreifftiau o ddarluniadau o'r Geni a'r Croeshoeliad. Bwriad y trafodaethau hynny yw tynnu sylw at nodweddion a allai helpu'r darllenydd wrth edrych ar ystod lawer ehangach o waith.

**Stori'r Geni**

Mae gan olygfeydd o'r Geni rai cymeriadau stoc: mae Joseff, Mair a'r baban bob amser yn bresennol, yn aml gydag angylion. Roedd yr ychen a'r asyn yno o ddyddiau cynnar, wedi'u hysbrydoli gan Eseia 1:3. Mae bugeiliaid a doethion/ brenhinoedd yn dechrau ymddangos wrth i thema addoliad gael ei datblygu.

Weithiau maent yn cyrraedd yr un pryd, yn cyfuno'r hanesion yn Efengylau Mathew a Luc. Mae gan ffigyrau ychwanegol, fel bydwragedd, darddiad apocryffaidd a chwedlonol.

Yn y gerfwedd Ffrengig o'r bymthegfed ganrif isod, mae'r artist wedi creu maes symbolaidd cymhleth tra hefyd yn llwyddo i greu golygfa ddomestig deimladwy. Mae angylion yn rhoi sylw i'r baban mewn basged wiail yn y darn uwch tra bod bugeiliaid yn gwylio dros ffens blethedig. Mae'r baban yn estyn i fyny, fel pe bai'n ceisio cyffwrdd trwyn yr ychen y tu ôl iddo. Isod, mae Mair yn penlinio, yn syllu ar ei phlentyn â chariad. Yn y cyfamser, mae Joseff yn cynhesu dillad y baban wrth y tân. Yr unig elfennau tywyll yn yr olygfa yw'r crud rhwng Mair a Joseff, sy'n edrych yn debyg iawn i arch garreg, a rhan weladwy stôl Joseff, sy'n rhyw fath o ffurf croes. Eto gall hyd yn oed bedd fod yn obeithiol. Bydd yr angylion sy'n eistedd ar ei ymyl yn dod o hyd i'w cymheiriaid ar fore'r Atgyfodiad. Mae hwn yn amlwg yn waith a wnaed ar gyfer addoliad. Mae'n anodd i wylwyr modern ei brofi yn yr un modd â gwerinwr Ffrengig o ddiwedd y canol oesoedd, ond mae'r naws o dynerwch, addoliad a chariad teuluol, ynghyd â'r trafod hawdd rhwng preswylwyr y nefoedd a phobl gyffredin, yn dweud llawer am sut byddai



Y Geni, tua 1450  Circle of Antoine Le Moiturier French, Metropolitan Museum of Art, New York https://www.metmuseum.org/art/collection/search/463755 (cyhoeddus)

honiad ymddangosiadol syml fel 'rydym yn caru Iesu' yn edrych o ran addoliad ymarferol. Mae delwedd fel hon yn ei gwneud yn bosibl dychmygu cariad at Dduw sy'n tyfu ac yn aeddfedu, ochr yn ochr â'r plentyn sy'n tyfu.

Mae tynnu sylw at yr hyn sydd i ddod yn nodwedd aml mewn celf Gristnogol. Mae rhai gweithiau, yn enwedig y rheini dan ddylanwad y traddodiad eiconau, yn dangos y baban wedi'i rwymo mewn cadachau fel corff, ac mewn preseb siâp arch. Mae'r arlunydd Eidalaidd o'r drydedd ganrif ar ddeg, Guido da Siena, yn dewis yr idiom hon (https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Guido_Da_Siena_-_Nativity_-_WGA10980.jpg). Gallai trawst croes y stabl, neu goeden yn y cefndir, edrych fel y groes. Mae'r ŵyn byw sy'n dod gyda'r bugeiliaid yn ein hatgoffa am Oen Duw . Mae Andrea Mantegna (1431-1506) yn ychwanegu coeden afalau, symbol o'r Cwymp ac addewid fod y Cwymp yn cael ei wrthdroi yng Nghrist. Ef yw'r ail Adda. A byddai'r byd canoloesol yn gweld Mair fel yr ail Efa (https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Andrea_Mantegna_-_The_Adoration_of_the_Shepherds_-_WGA13945.jpg).

Nid oes ar gelf Gristnogol ofn cyflwyno cyfeiriadau cyfoes. Roedd y gweithiau hyn yn aml yn cael eu comisiynu gan roddwyr fel gweithred o dduwioldeb. Un amod o'r briff fyddai cynnwys y rhoddwr yn penlinio mewn gweddi, fel arfer ar y chwith neu'r dde ar waelod yr olygfa. Gallent hefyd fod wedi gwneud cais am gynnwys eu hoff seintiau, e.e. Cathreine o Alexandria a Barbara. Gallai ffigyrau yn y darlun gael eu rhoi yng ngwisg cyfnod yr arlunydd ei hun.

Un datblygiad arwyddocaol iawn wrth beintio'r Geni yw tanbeidrwydd y golau sy'n llewyrchu o'r baban. Mae haneswyr celf yn nodi poblogrwydd y gweledigaethau a gyhoeddwyd o'r

cyfrinydd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, Santes Bridget o Sweden. Yn un o'r gweledigaethau hyn, mae'r Forwyn yn penlinio o flaen y plentyn, sy'n tywynnu gyda golau llachar. Ceir atseiniau amlwg o Efengyl Ioan (Ioan 1:1-14; 8:12). Daliwyd hyn yn dyner gan Lorenzo Lotto (1480-1557), yn ei ddarlun o Fair a Joseff yn syllu ar y baban disglair ar y llawr rhyngddyn nhw (https://www.nga.gov/collection/art-object-page.431.html). Mae'r arlunydd Eidalaidd o'r ail ganrif ar bymtheg, Guido Reni, yn rhoi teimlad dramatig i'r olygfa yn ei 'Adoration of the Shepherds' sydd bellach yng nghasgliad yr Oriel Genedlaethol yn Llundain.(https://www.nationalgallery.org.uk/paintings/guido-reni-the-adoration-of-the-shepherds). Yma, mae'r bugeiliaid yn ymuno â'r olygfa, eu hwynebau dwys yn dod â nodwedd o ddynoliaeth a realaeth i'r duwioldeb a'r defosiwn. Y tu ôl iddynt mae rhai gwragedd lleol, dau bibydd, a rhyw ffigyrau llai amlwg yn y man agored y tu hwnt i'r stabl. Dyma ddarlun sy'n gwahodd ei wylwyr i ddod yn rhan o



https://en.wikipedia.org/wiki/Adoration_of_the_Magi_(Rubens,_Cambridge)

addoli Crist.

Rhoddodd yr arlunydd Ffleminaidd, Peter Paul Rubens, oedd yn cyfoesi â Reni, ymdriniaeth i'r testun o addoliad hefyd, y tro hwn drwy brofiad y doethion. Wedi'i beintio'n wreiddiol ar gyfer cwfaint yn Louvain yng ngwlad Belg ar ddechrau'r 1630au, mae bellach yn hongian yng nghapel Coleg King's yng Nghaergrawnt.

Yma, mae pelydr o oleuni traws yn tynnu sylw at Mair a'r plentyn, sy'n syllu ar y brenin hynaf wrth iddo gynnig aur. Mae gwên yr hen ŵr yn ychwanegu naws chwareus i'r gosodiad ffurfiol. Mae Joseff yn ffigwr aneglur ar y dde iddyn nhw. Mae Mair wedi'i gwisgo fel byddai gwraig o'r Iseldiroedd ar y pryd, tra bod yr ymwelwyr lliwgar yn gwisgo deunyddiau moethus mewn ffasiynau sy'n awgrymu eu bod wedi cyrraedd o wahanol rannau o'r byd.

Mae'r ail frenin yn cynnig thus mewn llestr siâp cwch sy'n adlais o'r 'cwch' a ddefnyddir ar gyfer arogldarth mewn gwasanaethau eglwys, ac yn atgyfnerthu'r syniad ei fod wedi teithio pellter mawr. Mae'r trydydd brenin yn tynnu'n sylw at ryw amrywiaeth ethnig yn y gymdeithas fasnachu, ac mae ei benwisg yn awgrymu ei fod yn perthyn i'r byd Islamaidd. Mae eu gosgordd gysgodol o filwyr yn ein hatgoffa am yr hyn sydd i ddod.

### Y Croeshoeliad

Mae artistiaid wedi darlunio'r Croeshoeliad mewn pob math o ffyrdd. Mae hyn yn adlewyrchu dehongliad diwinyddol (mewn Cristnogaeth Ddwyreiniol a Gorllewinol), patrymau ysbrydolrwydd a defosiwn, gofynion comisiynau, a natur y ddynoliaeth a gynrychiolir yn y Crist sy'n marw a'r bobl sydd wedi ymgasglu o amgylch y groes. Nid oedd yn thema yr oedd Cristnogion yn ei darlunio tan y drydedd neu'r


bedwaredd ganrif (Jensen, 2007, t. 54) ac mae'r disgrifiadau'n amrywio o'r ffurfiau arddulliedig a llonydd cynnar, i ddynoliaeth empathig dioddefaint Crist a ddaliwyd gan rai o arlunwyr y Dadeni; afluniad corfforol y lladron yn marw gan Antonella da Messina (1430-1479) (https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Antonello_da_Messina_027.jpg); cyfriniaeth allorlun Van Eyck yn Ghent (https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Jan_van_Eyck_-_The_Ghent_Altarpiece_-_Adoration_of_the_Lamb_(detail)_-_WGA07654.jpg) neu ddarlun Dali 'Christ of St John of the Cross' (https://en.wikipedia.org/wiki/Christ_of_Saint_John_of_the_Cross); ffyrnigrwydd rhai triniaethau ar ôl y rhyfel, megis peintiadau Graham Sutherland o'r croesholiad (https://www.artuk.org/discover/artworks/crucifixion-70519); a haniaeth gweithiau diweddar, fel cerflun Geoffry Clarke ar y capel ym Mhrifysgol Chichester (https://www.artway.eu/userfiles/images/Chichester%20chapel.JPG).



https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Accademia_-_Crucifixion_by_Tintoretto.jpg

Mae'r arlunydd o Fenis, Tintoretto (bu farw 1594) yn cyflwyno golygfa o weithgaredd gwyllt. Mae dyn ar ysgol newydd orffen efallai hoelio Iesu i'r groes. Mae'r ddau leidr yn gwingo ac mae un yn ceisio llacio'i raffau. Wrth droed y groes, mae menywod yn gofalu am Mair, sydd wedi llewygu. Mae'n bosibl mai'r ffigwr i'r chwith ohonynt, sy'n dal ymyl lliain gwyn, yw'r disgybl Ioan. Yn y gornel dde ar y gwaelod, mae dynion yn taflu dis, er nid o reidrwydd i ennill dillad Iesu. Mae milwyr mewn gwisg o'r unfed ganrif ar bymtheg yn troelli eu ceffylau ac mae'r milwyr traed yn cario baneri. Mae'r arlunydd wedi peintio golygfa o frwydr, ond nid brwydr ddaearol. Fel y mae'r olewydden fain ym mlaen y llun yn ein hatgoffa, heddwch tragwyddol byd sydd wedi'i gymodi â Duw drwy aberth Crist fydd canlyniad terfynol yr anhrefn hwn.

Mae Raphael (1483-1520), yn dychmygu'r croeshoeliad yn wahanol iawn.




https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Raffaello_Sanzio_-_Crucifixion_(Citt%C3%A0_di_Castello_Altarpiece)_-_WGA18608.jpg

Mae yna dawelwch am yr Iesu hwn. O'r diwedd, ef yw Crist buddugoliaethus

Efengyl Ioan, a ddywedodd 'Gorffennwyd' (Ioan 19:30). Mae'r gwaith yn rhan o allorlun, a gomisiynwyd gan fasnachwr gwlân a bancwr ar gyfer capel claddu wedi'i gysegru i Sant Jerôm. Mae hyn yn esbonio presenoldeb Jerôm yn penlinio ar y chwith, yn cael ei gydbwyso gan Mair Magdalen yn penlinio ar y dde. Mae Mair mam Iesu ac Ioan y disgybl hoff yn sefyll y tu ôl iddynt. Mae dwylo'r cymeriadau yn yr olygfa yn mynegi amryw o emosiynau. Mae Mair Magdalen yn gweddïo; mae Jerôm fel pe bai'n cymell; mae dwylo Mair wedi'u plygu'n dawel; mae Ioan yn plethu ei fysedd, o bosibl fel arwydd o drallod. Uwch eu pennau, mae dau angel gyda chwpanau cymun yn dal y gwaed sy'n ffrydio o archollion Iesu. Dyma'r gwaed a ollyngwyd dros fywyd y byd, ac mae'r cwpanau'n ein hatgoffa fod pob ewcharist yn cofio ac yn diolch am yr hunanaberth hwnnw. Mae dehongliadau diwinyddol o'r ewcharist yn amrywio, ond mae ymrwymiad yr arlunydd i bresenoldeb cyflawnedig a thrawsnewidiol yn elfennau'r bara a'r gwin, y corff a'r gwaed, yn amlwg yn y darlun hwn. Ar bob ochr i'r arysgrifen ar y groes (INRI: *Iesus Nazarenus Rex Iudaeorum* - 'Iesu o Nasareth, Brenin yr Iddewon) y mae'r haul a'r lleuad. Mae llygaid yr haul wedi'u cau, tra bod y lleuad yn gwenu'n heddychlon. Rydym yn aros am fore'r Atgyfodiad, pan fydd Crist yn codi fel yr haul i deyrnasu am byth.

**Casgliadau**

Mae ystod, cyfoeth ac amrywiaeth enfawr celf Gristnogol yn golygu mai annoeth yw unrhyw gyffredinoli. Yr hyn mae'n sgwrs gyda dim ond pedwar darn o waith wedi ceisio'i wneud yw dangos pa mor rhyngweithiol y mae'r golygfeydd ymddangosiadol llonydd hyn. Maen nhw'n agor byd lle cawn wahoddiad i fynd i mewn i fyd defosiynol Cristnogion o oes lawer cynharach. Wrth ddysgu eu 'darllen', rydym yn darganfod rhywbeth am sut roedd eu creawdwyr, eu prynwyr a'u gwylwyr yn tynnu ar yr Ysgrythur a ffynonellau defosiynol eraill. Rydym yn synhwyro hefyd, yr ymgysylltiad dynol pwerus â chymeriadau straeon y Geni a'r Croeshoeliad. Yn olaf, mae'n rhaid i ni ofyn i'n hunain sut a pham mae'r delweddau hyn yn ein drysu, ein cyffwrdd a'n symud, a sut y gallai dyfalbarhau i ddysgu eu hiaith symbolaidd gyfoethogi addoliad personol a dealltwriaeth fwy o hunaniaeth Gristnogol.

## Geirfa

*Cristoleg*: athrawiaeth person (natur) Crist.

## Dolenni rhyngrwyd

https://www.nationalgallery.org.uk/about-us/contact-us (National Gallery London: Use search terms: 'Adoration of the Kings'; 'Adoration of the Shepherds'; 'Crucifixion')

https://www.metmuseum.org/toah/hd/pass/hd_pass.htm (Jean Sorabella (2008), Metropolitan Museum, NY – Essay on the Crucifixion and Passion in Italian Painting)

https://www.metmuseum.org/toah/hd/birt/hd_birt.htm (Jean Sorabella (2008), Metropolitan Museum NY – Essay on the Nativity in Italian Painting)

https://guides.lib.monash.edu/c.php?g=594405&p=4122046 (Guide to locating works of art in the public domain, Monash University)

## Pwyntiau trafod

1. Nawr eich bod wedi cael eich cyflwyno i'r gweithiau celf hyn, ceisiwch feddwl sut byddech wedi ymateb iddyn nhw pe na fyddech wedi cael unrhyw ganllawiau.
2. Pa nodweddion o bob un o'r gweithiau fyddech chi'n eu diffinio fel rhai nodweddiadol Gristnogol? (Gallai'ch ateb i'r cwestiwn hwn gynnwys dimensiynau diwylliannol ac ysbrydol.)
3. Sut ydych chi'n meddwl bod y diwylliannol a'r ysbrydol yn rhyngweithio â'i gilydd yn yr oes hon?

## Cyfeiriadau


Drury, John. (1999). *Painting the Word: Christian pictures and their meanings*. New Haven, Connecticut: Yale University Press; London: National Gallery Publications.

Finaldi, Gabriele. (2000). *The image of Christ: The Catalogue of the exhibition 'Seeing salvation'*. London: National Gallery.

Jensen, Robin M. (2004). *The substance of things seen: Art, faith, and the Christian community*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.

Jensen, Robin M. (2007).The Passion in early Christian Art. In *Encountering the Bible through the Arts* (pp. 53-84). Ed. Christine E. Joynes, London: T&T Clark.

MacGregor, Neil, & Langmuir, Erika. (2000). *Seeing salvation: Images of Christ in art*. New Haven, Connecticut: Yale University Press.

Murray, Peter, & Murray, Linda. (2004). *Oxford dictionary of Christian art*. Oxford: Oxford University Press.


*Mae Dr Bridget Nichols yn Ddarlithydd mewn Anglicaniaeth a Litwrgi yn Sefydliad Diwinyddol Eglwys Iwerddon yn Nulyn.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 16 Gwanwyn 2020
© Mark Graves

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Y Meddwl, yr Ymennydd a'r Enaid sy'n Uno

Mark Graves

*Mae'r erthygl yn rhoi trosolwg o ddatblygiad hanesyddol y cysyniad o'r enaid mewn athroniaeth a diwylliant Gorllewinol, ac yng nghyd-destun safbwyntiau gwyddonol cyfoes.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AQA Elfen 1: Athroniaeth crefydd a moeseg; Adran A: Athroniaeth crefydd; Yr hunan a bywyd ar ôl marwolaeth. Elfen 2: Astudiaeth o grefydd a deialogau; Adran A: Astudiaeth o grefydd – 2B Cristnogaeth, Yr hunan, marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth.*
*EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth Crefydd; 6.1: Syniadau am fywyd ar ôl marwolaeth ar draws ystod o draddodiadau crefyddol.*
*OCR Athroniaeth crefydd: 1. Iaith a Meddwl Athronyddol; yr enaid, y meddwl a'r corff, natur yr enaid, y meddwl a'r corff.*

**Hanes cynnar yr enaid**

Pan mae pobl yn siarad am yr enaid, maent yn aml yn golygu pethau gwahanol. Yn hanesyddol, gall gyfeirio at elfen ysbrydol rhywun, un o egwyddorion bywyd corfforol, meddwl rhywun, lleoliad emosiynau a theimladau, ewyllys rhywun neu fodolaeth cyfan rhywun.

Yn y Beibl Hebraeg, un o'r geiriau a gyfieithir yn aml fel enaid yw *nephesh*, fel yn Genesis 2:7, pan anadlodd Duw i lwch y tir a chreu enaid byw. Mae *nephesh* yn golygu hefyd gwddf corff, felly gall rhywun ddeall enaid fel rhywbeth byw, sy'n anadlu. Er bod Cristnogion weithiau'n ystyried yr enaid fel rhywbeth ar wahân i'r corff, daeth y syniad o wahanu'r corff a'r enaid yn bennaf ar ôl y testunau beiblaidd. Mae'r ysgolhaig beiblaidd, Joel Green, yn esbonio y gall rhywun feddwl yn well am fodau dynol yn dod yn enaid yn hytrach na derbyn neu feddu ar enaid. I ddeall beth allai 'dod yn enaid' feddwl, mae o gymorth deall i ddechrau sut daeth Cristnogion i feddwl am 'gael' enaid.

Wrth i athronwyr a diwinyddion geisio deall yr enaid, cawsant eu dylanwadu'n fawr gan ddwy agwedd hanesyddol. I'r athronydd Groegaidd Platon (429-347 CC), nid yw'r hyn mae rhywun yn ystyried

yn realiti yn ddim ond cip rhannol ar fyd ysbrydol, mwy sylfaenol. Pan mae rhywun yn edrych ar goeden, er enghraifft, mae'r hyn mae rhywun yn ei weld fel cysgod coeden, oherwydd mae gwir hanfod y goeden yn bodoli mewn byd ar wahân. I fyfyriwr Platon, Aristoteles (384-322 BCE), mae'r goeden gorfforol a'i hanfod yn bodoli yn yr un byd o realiti (sef hwn).

Mae dadleuon ynghylch a yw realiti yn bodoli fel un byd (*monyddiaeth*) neu ddau fyd (*deuoliaeth*) yn parhau hyd heddiw, er bod y damcaniaethau am yr hyn sy'n bodoli yn y byd(oedd) wedi newid dros amser.

Roedd Platon ac Aristoteles yn deall fod gan bethau yn y byd (yn cynnwys pobl) hanfod sy'n gwneud rhywbeth yr hyn ydyw. Mae'r pethau gwahanol hyn (fel coed, anifeiliaid a phobl) yn sylweddau gwahanol, ac i Aristoteles, mae ar sylwedd angen y potensial i fodoli (y mae'n galw y *sylwedd sylfaenol*) a hanfod sy'n pennu sut mae rhywbeth i fodoli (a elwir *ffurf sylweddol*). Ni ellid tynnu'r hanfod o sylwedd (fel person) oherwydd ni fyddai'r sylwedd hwnnw'n bodoli mwyach.

***Safbwyntiau deuolaidd***

Datblygodd safbwyntiau deuolaidd a daethant yn fwy soffistigedig dros y canrifoedd wedyn. Gwnaeth Plotinus (c. 205-270 OC) gyfraniad arbennig o ddylanwadol i'r hyn a elwir bellach yn *Neoblatoniaeth* drwy dynnu mae'n ymddangos ar fonotheistiaeth i adnabod 'Un' trosgynnol y tu hwnt i bob categori o fod. Fodd bynnag, yn lle Duw Greawdwr, fel mewn Cristnogaeth ac Iddewiaeth, roedd Un Plotinus yn ffrydio gorymdaith o luniadau (fel pelydrau'r haul) a arweiniodd yn y pen draw, drwy broses gymhleth, at orymdaith o eneidiau dynol.

Fel y ceisiodd yr esgob a'r diwinydd Cristnogol pwysig, Awstin (354-430), ddeall ac esbonio Cristnogaeth, tynnodd yn werthfawrogol ar ddatblygiadau Neoblatonig i esbonio'r enaid (neu'r hunan mewnol). Roedd hwn wedi'i greu'n wreiddiol gan Dduw ond wedi'i lygru yn y Cwymp yng Ngardd Eden, ac roedd yn dibynnu'n llwyr ar ras i alluogi rhywun i ddewis iachawdwriaeth a dychwelyd yn y pen draw at Dduw. Dadleuodd Awstin, gan fod pob gwirionedd yn dod o'r Ysbryd Glân, yna gallai'r rhai heb fod yn Gristnogion gael mynediad at y gwirionedd hefyd. Fodd bynnag, achosodd yr eglurder a gafwyd drwy allu esbonio eneidiau i lawer o Gristnogion diweddarach ddehongli'r Beibl drwy wydr deuolaidd.

Digwyddodd datblygiad Cristnogol pellach o Neoblatoniaeth yng ngwaith awdur anhysbys y gelwir bellach yn pseudo-Dionysius (c. 480-530), a ddisgrifiodd drefn hierarchaidd nefol yr oedd enaid yn mynd trwyddi. I pseudo-Dionysius, mae'r enaid yn symud drwy'r ffrydiau (fel y credodd Plotinus) ond hefyd mewn rhyw ffordd yn aros gyda Duw. Oherwydd y cysylltiad hwnnw sydd ar ôl, mae'r enaid yn dymuno dychwelyd ac aduno gyda Duw. Disgrifiodd Pseudo-Dionysius y broses ddychwelyd hon mewn tri cham:

1. puro, lle mae unrhyw beth nad yw fel Duw yn cael ei dynnu;
2. goleuo, lle mae'r enaid yn cael ei lenwi â Goleuni Dwyfol; a
3. perffeithio, lle mae unrhyw beth sy'n gwahanu'r person rhag Duw yn cael ei dynnu.

Dylanwadodd ei ddealltwriaeth fod yr enaid yn ceisio aduno â Duw drwy'r camau hyn yn gryf ar ysbrydolrwydd Cristnogol, gyda gwahaniaethau cynnil ac arwyddocaol rhwng safbwyntiau Catholig ac Uniongred Ddwyreiniol ar berffeithio a sancteiddio.

***Safbwyntiau monistaidd***

Adeiladodd y ddealltwriaeth fonistaidd o'r enaid ar Aristoteles. Eglurodd yr athronydd Persiaidd , Ibn-Sīnā (980-1037 OC; Lladin: Avicenna), fod meddwl Aristoteles ar wahân i ddatblygiadau Platonig diweddarach. Daeth cyfieithiadau ac esboniadau Ibn-Sīnā ar Aristoteles i Ewrop yn ystod y Croesgadau, a defnyddiodd Thomas Aquinas (1224-74) nhw i helpu i gysoni safbwyntiau athronyddol beiblaidd a neoBlatonig, yn enwedig rhai Awstin a pseudo-Dionysius. Defnyddiodd Aqunias ddealltwriaeth Aristoteles o sylweddau mewn natur i nodweddu'r enaid fel 'ffurf y corff'. Mewn geiriau eraill, yr enaid yw hanfod y person. Ar ei farwolaeth, byddai hanfod y person yn parhau ac yn ailddiffinio corff gwahanol mewn byd gwahanol; ond nid yw'r enaid yn sylwedd gwahanol, unigol, a allai 'adael' y corff, fel roedd y deuolwyr yn credu.

Cyfunodd Aquinas ffynonellau Cristnogol a rhai eraill i nodweddu'r enaid dynol yn fwy cywir a'i ddisgrifio yn nhermau tri phŵer.

- Y pwerau tyfiannol (yn cael eu rhannu â phlanhigion) sy'n gallu tyfu ac atgynhyrchu.
- Y pwerau synhwyrus (yn cael eu rhannu ag anifeiliaid), yn cynnwys synhwyrau allanol gweld, clywed, arogli, blasu a chyffwrdd, a'r synhwyrau mewnol sy'n datblygu gwybodaeth rhywun am wrthrychau wrth eu dirnad.
- Pwerau rhesymegol dynion, sy'n cynnwys y deall a'r ewyllys. Mae'r deall yn prosesu ymwybyddiaeth amlsynhwyraidd rhywun o wrthrych er mwyn canfod y 'cyffredinol' sy'n gysylltiedig â'r gwrthrych, ac mae'r ewyllys yn arwain y deall.

Ym mydolwg canoloesol Thomas Aquinas, caiff sylweddau, yn cynnwys pobl, anifeiliaid eraill a phlanhigion, eu diffinio gan eu hanfodion digyfnewid. Er y gall y sylwedd dyfu a newid dros amser, mae'r hanfod canoloesol yn dal yr agwedd sefydlog, ddigyfnewid sy'n gwneud rhywbeth yr hyn ydyw. Mewn bydolwg gwyddonol modern, fodd bynnag, nid yn unig y mae planhigion ac anifeiliaid unigol yn newid dros amser, ond mae eu hanfod fel rhywogaeth arbennig yn esblygu hefyd. Ymhellach, mae hyd yn oed llwyfan esblygol planhigion ac anifeiliaid sydd wedi'i amgáu yn eu DNA yn newid, ac yn y pen draw mae'n dibynnu ar ddatblygu elfennau fel nitrogen ac ocsigen mewn ymasiad serol. Tra bod gwyddoniaeth fodern wedi datblygu damcaniaethau am yr hyn sy'n gwneud amrywiol blanhigion ac anifeiliaid yn wahanol drwy ddefnyddio tystiolaeth empiraidd, roedd meddylwyr y Canol Oesoedd yn defnyddio meddwl rhesymegol i geisio deall yr hanfodion hynny. Oherwydd nad oeddent yn gwybod fod popeth yn y bydysawd yn newid dros biliynau o flynyddoedd, roeddent yn tybio nad oedd yr hanfod neu'r ffurf sylweddol byth yn newid.

Un her i ddeall yr enaid yw bod y rhagdybiaeth hynafol a chanoloesol am hanfodion digyfnewid yn anghyson â'r hyn a wyddom erbyn hyn am fyd natur. Er y gall rhywun fel arfer anwybyddu datblygiad serol a dirywiad elfennau yn y diwedd wrth astudio esblygiad biolegol, ac rydym yn nodweddiadol yn anwybyddu esblygiad dynol wrth astudio hanes yr eglwys, mae symleiddio'r gwyddorau naturiol a chymdeithasol fel hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth lawn a llwyr person yr oedd yr ysgolheigion canoloesol yn gobeithio'i gael. Ar hyn o bryd mae gwyddonwyr yn datblygu cysyniadau, modelau a damcaniaethau i ddisgrifio hanfod planhigion ac anifeiliaid o amryw o safbwyntiau. Felly, gallai

rhywun ddisgrifio'n ystyrlon bwerau tyfiannol a synhwyrus yr enaid dynol o safbwynt modern. Fodd bynnag, un o brif ddibenion yr enaid rhesymegol (a'r deall) yw canfod yr hanfod cyffredin o fewn y ffenomena y mae rhywun yn eu synhwyro. Os nad oes cyffredinolion, yna daw'n aneglur beth mae pwerau rhesymegol yr enaid yn ei wneud. A oes rhywbeth modern yn cyfateb i'r hyn a olygai ysgolheigion y Canol Oesoedd gan y gallu dynol i 'adnabod' rhywbeth? Yn benodol, a oes ffordd y mae rhywun yn canfod hanfod y pethau mae rhywun yn eu synhwyro? Mae cwestiwn diwinyddol cysylltiedig yn codi wrth ystyried yr ystyr drosiadol y mae Duw yn 'adnabod' person fel bod dynol. Ydi Duw yn adnabod hanfod person fel rhywbeth cyffredinol (fel y syniad canoloesol o adnabod ffurf sylweddol), neu ydi adnabyddiaeth Duw yn fwy tebyg i sut mae rhywun cyfoes yn deall hanfod unigolyn neu beth yng nghanol bydysawd sy'n newid yn barhaus? Mae datblygiad hanesyddol y ddeuoliaeth corff-enaid yn cymhlethu pethau ymhellach.

**Hanes modern y meddwl a'r ymennydd**

Fel rhan o'r symudiad tuag at fydolwg modern, heriodd René Descartes (1596-1650) y syniad monistig am yr enaid a dadleuodd fod yr unigolyn yn cynnwys dau sylwedd. Felly, creodd fath newydd o ddeuoliaeth. Fel hyn, roedd y sylwedd materol (*rex extensa*) yn cynnwys agweddau ffisegol a biolegol y corff, tra bod y sylwedd meddyliol (*res cogitans*) yn cynnwys yr hyn roedd Aquinas wedi ystyried fel pwerau rhesymegol yr unigolyn. Dadleuodd Descartes ymhellach fod pwerau rhesymegol yr enaid yn bodoli yn y meddwl dynol.

Fel un a oedd yn cydoesi â Galileo (1564-1642), roedd y modd yr oedd Descartes yn gwahanu'r person i sylweddau ar wahân i'r meddwl a'r enaid yn ymgais i osgoi dadl ddiwinyddol drwy gadw rhesymoledd dynol i'r eglwys a rhyddhau gwyddonwyr i astudio'r corff materol. Ar ben hynny, fodd bynnag, oherwydd bod yn rhaid i'r sylweddau hynny ryngweithio er mwyn i bobl ddirnad a gweithredu'n rhesymegol, ac oherwydd mai dim ond un enaid sydd gan rywun, cynigiodd Descartes fod y sylweddau yn rhyngweithio drwy'r chwarren bineol (*pineal gland*) yn yr ymennydd.

Dewisodd Descartes y chwarren bineol gan ei fod yn meddwl mai dyma unig ran unigol yr ymennydd gan y gwyddai fod y rhannau eraill yn ddwbl, oherwydd anatomi cymesur dwyochrol yr ymennydd. Yn fuan diystyrodd eraill ei dybiaethau am y chwarren bineol fel 'prif ganolbwynt yr enaid', gan nad oedd y chwarren bineol wedi'i lleoli yng nghanol yr ymennydd fel y credai Descartes nac yn strwythur annibynnol. Serch hynny, croesawyd ei syniadau am sylwedd meddyliol, gan adael yn agored y cwestiwn o sut gallai sylweddau yn y ddau faes ryngweithio. Mae esbonio'r rhyngweithio yn broblem oherwydd mae rhywun fel arfer yn teimlo'i fod yn bodoli mewn ffordd unedol tra bod gan y corff rannau lluosog a chymhleth.

Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gwyddonwyr a oedd yn astudio'r ymennydd yn credu ei fod yn cynnwys trefniant fel rhwyd o ffibrau nerfol o'r enw'r *reticwlwm*. Roedd y rhwydwaith hwn o ffibrau yn cario hylif damcaniaethol i symud signalau rhwng yr ymennydd, y cyhyrau a rhannau eraill o'r corff. Er nad oedd gwyddonwyr yn deall sut roedd yr enaid yn rhyngweithio â'r reticwlwm, ystyriwyd fod y reticwlwm yn strwythur unigol ond cymhleth, y gallai enaid unigol ryngweithio ag ef.

Yn yr 1880au, darganfu Camillo Golgi, yn sgil darganfod proses i wneud

strwythur microsgopaidd meinwe'r ymennydd yn weladwy, gelloedd gydag edeifion bach (o'r enw dendritau) o fewn yr hyn oedd wedi ymddangos fel dryswch cysylltiedig o ffibrau nerfol. Rhannodd Santiago Ramon y Cajal Wobr Nobel 1906 gyda Golgi am ddod i'r casgliad mai celloedd unigol (o'r enw niwronau) oedd y nerfau sy'n cysylltu â'i gilydd ond heb fod wedi asio â'i gilydd (mae bob amser fwlch rhyngddynt, o'r enw *synaps*). Cafwyd cryn ddadlau yn dilyn y canfyddiadau hyn wrth i wyddonwyr ac eraill gwestiynu sut gallai profiad dynol unedol ddeillio o gelloedd unigol a sut gallai enaid unigol ryngweithio â chasgliad cymhleth o gelloedd unigol.

Darganfu niwro-wyddonwyr yn yr 19eg a'r 20fed Ganrif lawer o ffyrdd lle mae prosesu meddyliol a nifer o swyddogaethau eraill a briodolwyd yn wreiddiol i'r enaid yn dibynnu'n drwm ar yr ymennydd cyfan. Mae'n ymddangos fod rhai agweddau o brosesu meddyliol, fel golwg neu reolaeth echddygol, yn lleol i ardaloedd penodol o'r ymennydd. I'r gwrthwyneb, roedd ymchwil niwrowyddonol arall yn pwysleisio natur hollgynhwysol, wasgaredig prosesu meddyliol, sy'n gofyn i nifer o swyddogaethau ymenyddol weithredu'n rhyngweithiol, fel ar gyfer gwneud penderfyniadau rhesymegol. Sut mae rhywun yn nodweddu cyfanswm y prosesu meddyliol hwnnw (y meddwl) a sut mae'n perthyn i'r corff a'r enaid?

### Yr enaid sy'n uno

Er bod Descartes wedi tybio fod y chwarren bineol wedi'i lleoli'n fwy canolog yn yr ymennydd nag yr oedd, fe wnaeth gwyddonwyr ddarganfod nodwedd anatomegol ddigymar yn yr ymennydd, o'r enw *corpus callosum*. Mae gan yr ymennydd dynol ddau hemisffer cymesur, ac mae'r *corpus callosum* yn cysylltu'r hemisfferau chwith a de gyda'i gilydd. Yn yr 1950au a'r 1960au, bu'r niwro-wyddonydd Roger Sperry yn astudio swyddogaethau gwahanol y ddau hemisffer mewn dynion ac anifeiliaid pan oedd y *corpus callosum* wedi'i dynnu mewn llawdriniaeth (yn aml fel triniaeth am epilepsi difrifol mewn pobl). Enillodd Sperry Wobr Nobel 1981 am ddarganfod sut mae agweddau penodol o brosesu meddyliol, megis iaith, yn arbenigol i bob hemisffer.

Mewn un arbrawf, defnyddiodd Sperry ddyfais i ddangos gwrthrych i faes gweledIad chwith cyfranogwyr yr oedd eu *corpus callosum* wedi'i dynnu a gwrthrych arall ar ochr dde'r person. Pan roedd y cyfranogwyr yn cael eu llygaid a Sperry'n gofyn iddyn nhw ddefnyddio'u llaw chwith i dynnu llun yr hyn a welsent, fe dynnon nhw'r gwrthrych a welsent gyda'u maes gweledol chwith. Ond, pan ofynnodd Sperry iddyn nhw ddisgrifio'r hyn a welsent ar lafar, fodd bynnag, byddent yn disgrifio'r gwrthrych ar y dde. Oherwydd bod hemisffer de yr ymennydd yn prosesu'r maes gweledIad chwith a symudiadau a theimladau'r llaw chwith, a'r hemisffer chwith yn prosesu ochr dde amgylchedd rhywun, daeth Sperry i'r casgliad fod y prosesu iaith a ddefnyddir i ddisgrifio gwrthrychau yn digwydd yn yr hemisffer chwith. Yn ddiweddarach, darganfu myfyriwr Sperry, Michael Gazzaniga, berson ymennydd-hollt ifanc gyda *corpus callosum* oedd wedi'i dorri mewn llawdriniaeth a ddatblygodd ddigon o allu ieithyddol yn yr hemisffer de i sillafu atebion gyda llythrennau Scrabble gyda'i law chwith. Pan ofynnon nhw i hemisffer chwith y plentyn beth oedd am ei wneud ar ôl tyfu i fyny, atebodd yn gyson ei fod eisiau bod yn ddyluniwr. Fodd bynnag, pan arbrofon nhw i allu gofyn cwestiwn i'r hemisffer de yn unig a gofyn beth oedd am fod wedi tyfu i fyny, ei ateb oedd 'gyrrwr car rasio'.

Arweiniodd arbrofion fel y rhain Sperry,

Gazzaniga ac eraill at y casgliad fod gan bob hemisffer ganfyddiadau, teimladau a phrosesu meddyliol eraill ar wahân, oedd yn golygu yn y bôn ddau feddwl ar wahân. Er ei bod yn ddadleuol iawn siarad am ddau feddwl mewn un person, mae'r arbrofion yn dangos fod teimlad unoli bodolaeth unigol fel pe'n dibynnu ar strwythur yr ymennydd, yn cynnwys presenoldeb y corpus callosum a strwythurau cysylltiol eraill, ac nad yw'n cael ei osod o reidrwydd gan yr enaid dynol. Serch hynny, byddai rhywun yn dal eisiau cyfeirio at berson heb *corpus callosum* sy'n gweithio fel person cyfan, a gall y term 'enaid' ddal hanfod person y tu hwnt i'w rhesymu meddyliol.

Gan dynnu ar y ddealltwriaeth fonoistig o'r enaid fel ffurf y corff, gall rhywun ailymweld â'r safbwynt beiblaidd fod person yn dod yn enaid ac ail-ddehongli'r enaid fel rhywbeth sy'n uno'r agweddau o'r hyn y daw'r person i fod. Yn hytrach nag enaid deuol yn bodoli ar wahân i'r person fel math o syniad cyffredinol a ddeilliodd o Dduw, mae'r enaid monoistig yn uno dimensiynau corfforol, biolegol, meddyliol a chymdeithasol rhywun i un cyfan unedig. Er bod rhai priodweddau corfforol a biolegol yn gyffredinol y tu hwnt i rym rhywun i'w newid, gellir dal ddiffinio rhai agweddau hanfodol o'r hunan drwy eu penderfyniadau a'u hymatebion i'n byd, yn cynnwys ymddygiad moesol ac ymrwymiadau ysbrydol rhywun.

Gall uno'r agweddau hanfodol hyn o fodolaeth unigolyn ffurfio hanfod yr unigolyn, y gall Duw yn awr ac yn y dyfodol barhau i'w adnabod fel enaid yr unigolyn.

## Geirfa

*cyffredinolyn (cyffredinolion):* yr hyn sydd gan bethau tebyg arbennig yn gyffredin.

*sylwedd:* yr hyn y mae peth wedi'i wneud honno.

## Dolenni rhyngrwyd

http://plato.stanford.edu/entries/ancient-soul/ (*Stanford Encyclopedia of Philosophy*, Hendrik Lorenz on 'Ancient theories of soul')

https://iep.utm.edu/universa/ *The Internet Encyclopedia of Philosophy*, Mary MacLeod on 'Universals')

## Pwyntiau trafod

1. Er bod cosmoleg fodern ac esblygiad wedi tanseilio'r rhan fwyaf o'r rhagdybiaethau canoloesol am gyffredinolion, mae rhywbeth fel cyffredinolion yn dal i ddigwydd gyda rhifau, siapiau geometrig a fformiwlâu mathemategol. A yw rhifau wir yn bodoli, a ydynt ddim ond yn ddyfais ieithyddol gyfleus neu a yw'r

meddwl dynol yn eu creu wrth i'r unigolyn brofi'r byd? Mae gan bob safbwynt gryfderau a gwendidau. Ystyriwch, er enghraifft, a wnaeth pobl greu y rhif 'dau', neu a oedd yn bodoli cyn pobl?

2. Gan nad yw hi'n ymddangos fod bydolwg modern yn cefnogi ffrydio'r enaid (neu'r hanfod) o fyd sy'n bodoli'n barod, sut fyddai rhywun yn diffinio hanfod person neu beth arall? Os yw'r bydysawd yn newid yn gyson, ydi hynny'n atal rhywbeth rhag cael hanfod neu ddim ond yn ei wneud yn fwy anodd ei ddiffinio?

3a. Os ydym yn diweddaru dealltwriaeth ganoloesol o'r enaid fel hanfod person, beth fyddai pwerau rhesymegol yr enaid dynol yn eu canfod am berson arall? Pan mae rhywun yn 'adnabod' person arall, beth mae'n ei wybod? Sut mae rhywun yn dod i le ble mae'n teimlo ei fod yn adnabod person arall? A oes agweddau dyfnach o berson arall, neu o'r hunan, nad oes neb fel pe bai'n eu hadnabod?

3b. Sut allai dealltwriaeth ddiwygiedig o 'adnabod' dynol newid dealltwriaeth drosiadol grefyddol o sut mae Duw yn adnabod person? A oes hanfod person y gallai Meddwl Dwyfol ei adnabod? Sut fyddai hynna'n edrych dros oes gyfan rhywun?

## Darllen pellach


Gazzaniga, M.S. (2015). *Tales from both sides of the brain: A life in neuroscience.* New York: HarperCollins.

Green, Joel. (2008). *Body, soul, and human life: The nature of humanity in the Bible*. Grand Rapids, Michigan: Baker Academic.

Jeeves, Malcolm A., & Brown, Warren S. (2009). *Neuroscience, psychology, and religion*. Conshohocken, Pennsylvania: Templeton Foundation Press.

MacDonald, Paul S. (2003). *History of the concept of mind: Speculations about soul, mind, and spirit from Homer to Hume*. Aldershot: Ashgate.


*Cwlbhaodd Dr. Mark Graves astudiaethau graddedig mewn cyfrifiadureg (deallusrwydd artiffisial) ym Mhrifysgol Michigan a diwinyddiaeth systematig ac athronyddol yn yr Undeb Diwinyddol i Raddedigion (GTU) ac Ysgol Ddiwinyddiaeth y Jeswitiaid yn Berkeley, yn ogystal â chymrodoriaethau ôl-ddoethuriaeth mewn genomeg yng Ngholeg Meddygaeth Baylor a seicoleg foesol yn Athrofa Ddiwinyddol Fuller. Mae'n Athro Cynorthwyol Ymchwil Gwadd yng Nghanolfan Diwinyddiaeth, Gwyddoniaeth a Blodeuo Dynol ym Mhrifysgol Notre Dame ac yn awdur hanner cant o weithiau technegol ac ysgolheigaidd mewn diwinyddiaeth, bioleg, seicoleg a chyfrifiadureg, yn cynnwys y llyfrau* Mind, Brain, and the Elusive Soul *(Ashgate, 2008) ac* Insight to Heal: Co-Creating Beauty Amidst Human Suffering *(Cascade Books, 2013).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 16 Gwanwyn 2020
© Francis Stewart

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Crefydd Ymhlyg: Ymagwedd Newydd at Astudio Crefydd?

Francis Stewart

*Mae'r erthygl yn dadlau mai un newid a wnaed i astudiaeth crefydd drwy ddatblygiad y thesis seciwlareiddio, a'i fethiant yn y pen draw, oedd ymagwedd newydd a oedd yn ceisio ateb y cwestiwn, 'Beth yw crefydd seciwlar?' Yr ymagwedd hon oedd Crefydd Ymhlyg, y mae ei tharddiad, ei natur a'i harwyddocâd yn cael ei thrafod yma.*

*Cyswllt â'r fanyleb:*
*OCR (H573/03) 2c. Datblygiadau mewn meddwl Cristnogol, 6. Heriau: Her Seciwlariaeth.*

**Cyflwyniad: Cyd-destun cefndirol**

Dechreuodd seciwlariaeth ddod i'r amlwg yn yr 1960au yn Ewrop, y DU ac ychydig yn ddiweddarach Unol Daleithiau America. Roedd gan, ac mae gan, bob crefydd ei ffurf a'i llwybr ei hun sy'n cael eu gyrru gan ffactorau diwylliannol a digwyddiadau byd-eang. Yn gyffredinol, roedd seciwlariaeth yn seiliedig ar y cysyniad fod crefydd, yn ei ffurf drefniadol, sefydliadol, draddodiadol, wedi dod mor amherthnasol i sut rydym yn trefnu ac yn rhedeg cymdeithas fel ei bod yn encilio o'r byd cyhoeddus ac y byddai'n fuan naill ai'n marw allan yn llwyr, neu'n dod yn rhywbeth preifat nad oedd yn gallu dylanwadu ar gymdeithas ehangach. Cafodd y safbwynt hwn ei wthio'n gryf gan ysgolheigion fel Peter Berger (1929-2017) yn ei lyfr yn 1967, *The sacred canopy: Elements of a sociological theory of religion*; Thomas Luckmann (1927-2016) yn ei lyfr 1996, *The social construction of reality* a Bryan Wilson (1926-2004) yn ei lyfr 1996, *Religion in secular society*.

Dyma genhedlaeth o ysgolheigion oedd wedi'u geni yn y blynyddoedd rhwng dau ryfel byd. Roeddent yn etifeddion tueddiad o feddwl am grefydd yn dirywio yn dilyn datganiad Nietzsche am farwolaeth Duw (1882) ac yn cael eu dylanwadu'n fawr gan farn Weber, Durkheim a Marx - pob un ohonynt yn ystyried crefydd mewn patrwm o dwf a dirywiad. Maent hefyd yn grŵp o ysgolheigion a oedd yn dod yn amlwg yn eu gyrfaoedd ar adeg o newid cymdeithasol anferth. Yn yr 1960 daeth yr arddegwyr yn gategori cymdeithasegol ac yn farchnad economaidd; a gwelwyd cynnydd amlwg yn yr ymgyrch am hawliau dynol sylfaenol i fenywod, i Americaniaid Affricanaidd (UDA) ac i Gatholigion (Gogledd Iwerddon). Roedd

rhyddfreiniad rhywiol yn y golwg i fenywod gyda'r bilsen atal cenhedlu ar gael yn rhwydd. Ond roedd hwn hefyd yn gyfnod Rhyfel Fietnam, y rhyfel Chwe Diwrnod yn Israel a Phalesteina, a dechreuadau'r Rhyfel Oer. Nid yw syniadau am gymdeithas fyth yn dod i'r amlwg ar eu pennau eu hunain ond ochr yn ochr â meddylfryd a digwyddiadau cymdeithasol blaenorol, ac roedd yn rhaid deall y ddamcaniaeth seciwlareiddio yn y cyd-destun ehangach hwn.

Roedd y ddamcaniaeth seciwlareiddio yn un boblogaidd, ac mae'n dal i fod mewn rhai meysydd astudiaeth; ond erbyn diwedd yr 1960au roedd eisoes yn cael ei beirniadu am eu diffygion arwyddocaol. Yn aml roedd y beirniadaethau systemig hyn yn ceisio tynnu sylw at wreiddiau ideolegol y gosodiad. Mae wedi'i seilio mewn dealltwriaeth o grefydd yr Oes Oleuedig (17eg-19eg ganrif) fel rhywbeth oedd yn rhwym wrth sefydliadau pwerus a oedd yn aml yn gweithio i gefnogi cyfundrefnau a oedd yn gormesu pobl a dinasyddion cyffredin. Roedd y rheiny oedd yn beirniadu'r ddamcaniaeth seciwlareiddio ar y seiliau hyn, fel David Martin yn *The religious and the secular* (1969) ac Andrew Greeley yn *Unsecular man: The persistence of religion* (1972), yn cyfeirio at sut roedd sefydliadau crefyddol yn newid a'r newid mewn cymdeithas yn ehangach. Yn fwyfwy, mae eithriad yr UDA, lle mae crefydd yn dal i fod yn rymus a chryf mewn meysydd fel addysg, gwleidyddiaeth, deddfwriaeth a gofal iechyd, wedi dod yn ddadl fynych yn erbyn y ddamcaniaeth seciwlareiddio.

Yn y pen draw, nid yw'r ddamcaniaeth seciwlareiddio wedi mynd i ffwrdd; mae'n dal i fod yn rhan bwysig o astudiaethau crefyddol ac yn arbennig cymdeithaseg crefydd. Mae rhai o'r rheini a'i cefnogodd a'i hyrwyddo'n fwyaf taer wedi newid eu barn ers hynny (fel y dylai pob ysgolhaig da, wrth gael eu cyflwyno â thystiolaeth anorchfygol). Yr un amlycaf o'r rhain yw Peter Berger, a ddadleuodd yn ddiweddarach nad yw'r byd wedi cael ei seciwlareiddio. Yn hytrach, dadleuodd, roedd wedi aros yn grefyddol, ac mewn rhai llefydd wedi tyfu yn ei grefyddusrwydd neu sêl grefyddol er gwaethaf dylanwad seciwlareiddiol moderneiddio, sydd wedi arwain wedyn at ymdrechion gwrth-seciwlarieddio. Felly, dywed, 'nid yw seciwlareiddio ar lefel gymdeithasol o reidrwydd yn gysylltiedig â seciwlareiddio ar lefel ymwybyddiaeth yr unigolyn' (Berger, 1999, t. 3).

Tra bod hyn yn digwydd yn yr 1960au, ac yn cael ei ddylanwadu ganddynt, gofynnodd myfyriwr PhD – Edward Bailey – os ydym yn mynd yn fwy seciwlar yna beth yw 'crefydd seciwlar'? Daeth hyn yn thesis ei ddoethuriaeth, ac astudiaeth ac ymroddiad gydol oes i ymagwedd newydd yng nghymdeithaseg crefydd a ddaeth wedyn i gael ei alw'n 'Grefydd Ymhlyg'. Heddiw mae Crefydd Ymhlyg yn cynnal dwy gynhadledd flynyddol, cyfnodolyn academaidd, canolfan ymchwil ym Mhrifysgol Esgob Grosseteste a swydd darlithydd ym Mhrifysgol Caergrawnt.

**Crefydd Ymhlyg: Beth ydyw?**

Roedd gan Bailey ddiddordeb mewn sut mae pobl yn datblygu eu hunain gwir/didwyll a bywydau ystyrlon a sut maent yn gwneud penderfyniadau pan mae eu sylw neu eu hymrwymiad yn gorwedd yn yr hyn a elwir y seciwlar yn hytrach na'r crefyddol. (Mae'r dynodiadau hyn yn aml yn fympwyol a phroblemus, fel yr ystyriwn yn y rhan nesaf.)

Mae'n bwysig deall beth nad yw Crefydd Ymhlyg, yn ogystal â beth ydyw; yn aml os na allwch fynegi'r cyntaf, mae'n anodd deall yr ail yn llawn. *Nid* yw

Crefydd Ymhlyg yn ymgais i honni fod rhywbeth 'ddim ond yn ymddangos' yn grefyddol ond ei fod yn 'seciwlar' mewn gwirionedd, nac yn mynnu y gallai ysgolheigion alw rhywbeth yn 'grefyddol' beth bynnag mae'r cyfranogwyr eu hunain yn ei feddwl. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar y ffyrdd y mae pobl yn mynegi nodwyr ffydd, cred neu ddefod, naill ai tuag at neu o fewn rhannau o'u bywydau bob dydd. I roi rhai enghreifftiau ac fel ffordd o ddangos sut mae'n wahanol i *ysbrydolrwydd*, gellid ystyried ymddygiad pobl mewn digwyddiad chwaraeon (Cipriani, 2012) neu wrth wrando ar berfformiad jazz (Donovan, 2014) yn Grefydd Ymhlyg iddyn nhw; fel y gall y ffyrdd y mae Nadolig yn cael ei gofio a'i ddiffinio'n wleidyddol mewn cymunedau (Deacy, 2018; Warburg, 2017) neu'r pererindodau y mae dilynwyr ffyddlon Elvis yn eu gwneud i Graceland (King and Stewart, 2016; Porter, 2009).

Er mwyn datblygu ac archwilio'r meysydd hyn orau, datblygodd Bailey *dri offeryn dadansoddol* sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau dynol yn hytrach na dogma, cred neu honiadau o'r gwirionedd.

- Yrmwymiad(au) – yr hyn y mae'r unigolyn, y grŵp neu'r gymuned wedi ymrwymo iddo, i'r lefel eu bod yn fodlon aberthu i ryw raddau ar ei gyfer.
- Canolbwyntiau Integreiddio – agweddau, defodau neu arteffactau materol agweddau ehangach yr ymrwymiad sy'n galluogi'r unigolyn i ddod ag agweddau amrywiol eu bywydau a/neu eu hunaniaethau yn un cyfan ystyrlon, cydlynus.
- Pryderon Dwys gydag Effeithiau Eang – y materion neu'r achosion sy'n codi o'r ymrwymiad y mae'r unigolyn neu'r gymuned yn barod i weithredu arnyn nhw dro ar ôl tro, hyd yn oed ar gost fawr iddyn nhw'u hunain.

Mae defnyddio'r offerynnau hyn yn arwain fel arfer at un o ddwy *ymagwedd* i'r gymuned neu'r unigolion dan sylw. Y cyntaf yw y gall nodwyr cymharol ar gyfer astudio crefydd gael eu deall a'u hegluro yn well. Er enghraifft, archwiliodd King a Stewart ffans Elvis a ffans pync-roc a gweld:

> Gellid gweld Elvis 'a'i grefydd' fel yr hyn sy'n cael ei ddarlunio'n aml fel traddodiad 'Catholig' gyda phererindodau, blodau, canhwyllau, gweddïau a gwyrthiau (yn cynnwys atgyfodiad). Mae moeseg a gwaith elusen yn digwydd fel ffordd o efelychu neu alw ysbryd Elvis yn hytrach na gweithred neu gymhelliant moesol. Ar yr un pryd, gellid ystyried cerddoriaeth pync (yn ei amrywiol ffyrdd) fel yr hyn sy'n cael ei ddarlunio'n draddodiadol yn 'Brotestannaidd' gyda'i hunanddibyniaeth lem, gwrthod hierarchaeth a herio awdurdod, ei bwysigrwydd allweddol ar gwestiynu, gweithredu a golwg ddu a gwyn ar y byd. Mae moeseg yn rhan allweddol o bync ac maent yn cael eu gyrru gan foesoldeb cryf a dymuniad i orfodi newid. (2016, t. 94)

Mae'r ail ymagwedd yn defnyddio offerynnau Crefydd Ymhlyg i blicio'n ôl haenau o ystyr a phwrpas o fewn y gymuned sy'n cael ei hastudio heb geisio'i chymharu'n uniongyrchol ag astudiaethau mwy traddodiadol o grefydd, ond yn hytrach, weithiau, i ddangos sut gall cymhariaeth uniongyrchol fod yn gamarweiniol neu'n anonest. Er enghraifft, cymhwysodd Stewart (2016) fframwaith Crefydd Ymhlyg i'w hastudiaeth ethnograffig o weithredwyr hawliau anifeiliaid o fewn cymunedau anarcho-pync i ddatgelu pwysigrwydd ymagwedd croestoriadol (Crenshaw, 1989) i ryddid, yn hytrach na

golwg lled-grefyddol o anifeiliaid fel y dadleuwyd gan eraill (Jacobson, 2014; Lowe 2001; Jamison, Wenk and Parker, 2000). Gan dynnu ar ymagwedd empiraidd, defnyddiodd Francis (2013) yr offerynnau i archwilio'r cysylltiad rhwng syniadau am hunanladdiad ac ymagwedd grefyddol. Drwy holiadur a atebwyd gan dros 25,000 o bobl ifanc 13-15 oed yn y DU, darganfu nad yw arddel crefydd ymhlyg fel cred, ond heb fod yn mynychu lle o addoliad, yn arwain at lefelau is o syniadaeth hunanladdiad o'u cymharu â chymheiriaid eraill, a oedd yn cyferbynnu'n gryf â'r hypothesis a gredid yn flaenorol.

Yr hyn y mae Crefydd Ymhlyg yn dangos yw nad yw diwylliant, crefydd, cymdeithas a'i mynegiannau ohoni (diwylliant poblogaidd) yn llonydd neu'n sefydlog, nid ydynt yn bodoli dim ond oherwydd eu bod yn bodoli. Yn hytrach pethau wedi'u hadeiladu ydyn nhw i gyd ac felly maent yn esblygu, addasu ac yn ail-drafod eu hunain yn barhaus. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r ffordd rydym yn deall yr elfennau amrywiol hynny o drefn, strwythur a mynegiant barhau i ddatblygu yn yr un modd ac mae Crefydd Ymhlyg yn un cam pwysig felly ym methodoleg gwneud hynny.

**Crefydd Ymhlyg: Pam ei bod yn bwysig?**

> Roedd degawd yr 1960au yn ei gweld ei hun fel dolen rhwng dau fyd, yr ydym ers hynny yn eu galw'n 'foderniaeth' ac 'ôl-foderniaeth'. Yn naturiol, mae lle i drafodaeth newyddiadurol ac ysgolheigaidd am eu nodweddion, eu hachosion a'u craidd (a'u hunion deitl) ond ychydig fyddai'n dadlau fod newid diwylliant, yn fwy arwyddocaol na'r newidiadau yn y degawdau yn syth cyn ac wedyn, wedi digwydd yn y byd Gorllewinol bryd hynny ... Un o'r arwyddion fod oes yn dod i ben oedd y diddordeb, ar ran pobl grefyddol, mewn seciwlareiddio ....Nid yw hi'n amlwg yn syth sut mae deall y sefyllfa newydd. Mae'n amlwg fod angen i ni ei deall, at ddibenion ymarferol ac er mwyn ein deall ein hunain. Mae'r ffaith, gydag ambell i eithriad ('caneuon ffarwel'), nad yw'r ddamcaniaeth seciwlareiddio yn arwain at nemor ddim dadl ar hyn o bryd yn awgrymu fod hwn yn amser da i fynegi model newydd a all ennyn cytundeb eang. (Bailey, 2001, tt. 1-3)

Rhan allweddol o ddeall y 'sefyllfa newydd' yw cydnabod nad yw'r termau a'r cysyniadau 'crefydd' a 'seciwlar' yn anhanesyddol neu'n niwtral. Yn hytrach, cawsant eu datblygu drwy ganrifoedd o adeiladu ymerodraeth a rheolaeth drefedigaethol. Maent, neu maent wedi dod yn nodweddion allweddol o ymdrechion i dra-arglwyddiaethu, gostwng a dinistrio drwy ragfarn, tlodi a chaethwasiaeth, diwylliannau cyfan a gwledydd o bobl. Yn ychwanegol, mae problem bellach gyda chysyniadau 'crefydd' a 'seciwlar' oherwydd bod unigolion, grwpiau, ysgolheigion a thraddodiadau yn cymryd fod yr hyn maen nhw'n ei feddwl wrth ddefnyddio'r termau 'crefydd' a 'seciwlar' yr un peth ag y mae pobl eraill yn ei feddwl, fod y termau hyn yn gyffredinol rywsut, pan nad ydynt (Fitzgerald, 2007). Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r cymryd yn ganiataol hyn yn amlwg yn creu arfau ar gyfer rhesymau gwleidyddol i haeru fod y rheini sy'n dilyn traddodiadau crefyddol yn israddol mewn rheswm ac felly â mwy o dueddiad at drais, tra'n caniatáu i drais a gyflawnir yn enw'r wladwriaeth gael ei ganiatáu gan y tybir ei fod yn seciwlar ac felly'n deillio o resymeg yn unig (Cavanagh, 2009).

Mynegi model newydd yw'r union beth y

gwnaeth Bailey fynd ati i'w greu, a'r hyn a alwodd yn Grefydd Ymhlyg. Nid oedd yr ymchwil am ystyr mewn bywyd, yn y ddolen rhwng moderniaeth ac ôl-foderniaeth, wedi'i gyfyngu o ran cwmpas i sefydliadau ac arferion crefyddol traddodiadol. Roedd pobl yn chwilio ac yn creu ffyrdd newydd yn y pen draw o ddod o hyd i ystyr i'w hunain, o ddeall y byd, o wneud ymrwymiadau a chaniatáu iddynt ddylanwadu ar eu hagweddau a'u hymddygiadau.

Dyna pan mae Crefydd Ymhlyg yn bwysig, oherwydd mae'n cymryd o ddifrif y gwneud ystyr, y creu hunaniaeth a'r ffyrdd o fod y mae pobl yn datblygu iddyn nhw'u hunain a allai fel arall gael eu hanwybyddu. Mae eu cymryd o ddifrif yn ein galluogi ni fel ysgolheigion crefydd i fynd i'r afael â'n rhagfarnau cynhenid, i gymryd o ddifrif y myrdd o brofiadau mae pobl yn eu cael wrth iddynt symud trwy fywyd a chymryd rhan mewn ymddygiadau dynol, ac, yn olaf, i ofyn cwestiynau fel, ai dim ond gwerthoedd dynol yw moeseg grefyddol? Beth sy'n gorwedd wrth wraidd seciwlariaeth? Pa ran sydd gan seciwlariaeth mewn siapio'n diwylliant?

## Dolenni rhyngrwyd

www.implicitreligion.co.uk (The Edward Bailey Centre)

https://journals.equinoxpub.com/IR (The journal, *Implicit Religion*)

https://classicalideaspodcast.libsyn.com/ep-57-dr-francis-stewart-on-the-religious-surrogacy-of-straight-edge-punk (Podcast: Francis Stewart on Straight Edge Punk as a surrogate of religion)

## Pwyntiau trafod

1. Beth yw Crefydd Ymhlyg a pham y gwnaeth ddatblygu?
2. Beth gall Crefydd Ymhlyg ei chynnig i ysgolheigion crefydd sy'n newydd ac yn wahanol? Pam fod hyn yn bwysig?
3. Os ydych yn astudio rhywbeth drwy lygad Crefydd Ymhlyg, ar beth fyddech chi'n canolbwyntio a pham?
4. Beth yw seciwlariaeth? Beth sy'n gorwedd wrth ei wraidd?
5. Pa rôl sydd gan seciwlariaeth wrth siapio'n diwylliant?
6. Ai dim ond gwerthoedd dynol yw moeseg grefyddol?

## Cyfeiriadau a darllen pellach

Bailey, Edward. (1998). *Implicit Religion in contemporary society*. Leuven: Peeters.

Bailey, Edward. (2001). *The secular faith controversy*. London: Continuum.

Bailey, Edward. (2010). *Implicit Religion: An introduction*. London: Middlesex University Press.

Berger, Peter. (1967). *The sacred canopy: Elements of a sociological theory of religion*. Garden City, New York: Doubleday.

Berger, Peter. (1999). *The desecularization of the world*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.

Cavanaugh, William. (2009). *The myth of religious violence: Secular ideology and the roots of modern conflict*. Oxford: Oxford University Press.

Cipriani, Roberto. (2012). Sport as (Spi)rituality. *Implicit Religion, 15*(2), 139-151.

Crenshaw, Kimberle. (1989). Demarginalizing the intersection of race and sex: A black feminist critique of antidiscrimination doctrine, feminist theory and antiracist politics. *University of Chicago Legal Forum, issue 1*, article 8.

Deacy, Christopher. (2018). Religion on the radio: Using Christmas religious broadcasting to reframe the sacred-secular interface. I*mplicit Religion, 21*(1), 1-43.

Fitzgerald, Timothy. (ed.) (2007). *Religion and the secular: Historical and colonial formations*. London: Equinox.

Francis, Leslie J. (2013). The association between suicidal ideation, explicit religion and implicit religion: An empirical study enquiry amongst 13 – 15-year-old adolescents. *Implicit Religion*, 16(1), 93-109.

Greeley, Andrew. (1972). *Unsecular Man: The persistence of religion*. New York: Schocken.

Jacobson, Kerstin. (2014). Elementary forms of religious life in animal rights activism. *Culture Unbound*, 6(2), 305-326.

Jamison, Wesley V., Wenk, Caspar, & Parker James V. (2000). Every sparrow that falls: Understanding animal rights activism as functional religion. *Society and Animals* 8(3), 305-330.

King, Christine, & Stewart, Francis. (2016). Blue suede shoes to Doc Marten boots: Music, protest and Implicit Religion. *Implicit Religion*, 19(1), 93-115.

Lowe, Brian. (2001). Animal rights as a quasi-religion. *Implicit Religion*, 4(1), 41-60.

Luckmann, Thomas. (1963). *The social construction of reality*. London: Vintage Books.

MacIntyre, Alasdair C. (1967). *Secularization and moral change*. London: Oxford University Press.

Martin, David. (1969). *The religious and the secular*. London: Routledge.

Porter, Jennifer. (2009). Implicit Religion in popular culture: The religious dimensions of fan communities. *Implicit Religion*, 12(3), 271-280.

Stewart, Francis. (2016). This is [not] the ALF: Anarchism, punk rock and animal advocacy. *Punk and Post Punk, 5*(3), 227-245.

Stewart, Francis. (2017). *Punk Rock is my religion: Straight Edge Punk and 'religious' identity*. Oxford: Routledge.

Warburg, Margit. (2017). Much ado about a Christmas tree: A conflict involving Danish civil religion. *Implicit Religion*, 20(2), 127-148.

Wilson, Bryan. (1966). *Religion in secular society*. London: Oxford University Press.

*Dr Francis Stewart yw Cymrawd Ymchwil Crefydd Ymhlyg a Chyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Edward Bailey ym Mhrifysgol Esgob Grosseteste, Lincoln. Mae hi'n ymchwilio i isddiwylliannau pync ac anarchaidd, a chyhoeddodd ei llyfr cyntaf ar bync "Straight Edge" yn y DU, lle'r oedd yn archwilio'r isddiwylliant drwy lygad Crefydd Ymhlyg* (Punk Rock is my religion, Routledge, 2017)*. Mae hi wedi cyhoeddi llawer o erthyglau ar Grefydd Ymhlyg mewn perthynas â gwahanol agweddau o bync, yn cynnwys adfocatiaeth anifeiliaid, dwyreinioldeb, gwthio i'r cyrion a sain. Mae ei gwaith yn aml yn rhoi sylw arbennig i Ogledd Iwerddon.*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 16 Gwanwyn 2020
© Jeff Astley

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Dirgelwch Anhraethol Duw?

Jeff Astley

*Mae'r erthygl yn ystyried cysyniadau am anhraetholdeb, trosgynoldeb a dirgelwch Duw, gan gyfeirio'n arbennig at y profiad crefyddol ac iaith grefyddol.*

*Cysylltiadau â'r fanyleb:*
*AQA 3.1 Elfen 1: Athroniaeth crefydd a moeseg; 3.1.1 Adran A: Athroniaeth crefydd; Iaith grefyddol: y Via Negativa. 3.2 Elfen 2: Astudiaeth o grefydd a dialogau; 3.2.2 2B Cristnogaeth; Adran A: Cristnogaeth; Duw, Monotheistiaeth Gristnogol: y trosgynnol a'r amhosibl ei wybod.*
*EDEXCEL Papur 1: Athroniaeth Crefydd; Pwnc 2 Natur a dylanwad y profiad crefyddol; 2.1, a) anhraetholdeb. Pwnc 4 Iaith grefyddol; 4.1 Cydweddiad a Symbol a) Cydweddiad: via negativa.*
*OCR Athroniaeth crefydd (H573/01): 5.Iaith Grefyddol: Negyddol, Cydweddol neu Symbolaidd; y ffordd apoffatig - y via negativa.*
*CBAC Uned 2: Adran B – Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd; Thema 4: Profiad Crefyddol (rhan 1) Gwybodaeth am grefydd a chred a dealltwriaeth ohonynt; B. Profiad cyfriniol.*

**Trosgynoldeb**
Mewn monotheistiaeth, mae'r 'Bod Goruchaf' neu'r 'Ysbryd Greawdwr' a ddynodir gan y teitl 'Duw' yn meddu ar natur, cymeriad a gweithgareddau sy'n hollol wahanol i rai bodau dynol, heb son am 'greaduriaid' mwy isel (yn yr ystyr wreiddiol o 'rhywbeth a grëwyd'). Caiff y gwahaniaeth neu'r 'arallrwydd' hwn yn Nuw ei labelu'n aml fel *trosgynoldeb* Duw, gan fod Duw yn trosgynnu ('mynd dros ben neu'r tu hwnt i'):

- derfynau profiad, iaith a gwybodaeth ddynol, a
- therfynau'r bydysawd a grëwyd (ac yn arbennig y bydysawd materol o ofod ac amser).

Dangosir arwahanrwydd Duw yn natur ddiderfyn (= annherfynol) Duw, yn enwedig gan nad yw'r 'Symudydd Disyflyd', nad yw ei fodolaeth (yn wahanol i bob creadur arall) yn dibynnu ar unrhyw un arall.[1] Mewn Cristnogaeth, cafodd yr *ymdeimlad metaffisegol neu ontolegol hwn o drosgynoldeb* ei

[1] Dyma *asëyddiaeth* Duw. Mae bod Duw yn bodoli *a se*, oddi wrth ac o'i hun yn unig, a ddim wedi deillio o'r tu allan i Dduw.

ddisgrifio'n dda gan Søren Kierkegaard yn nhermau 'y gwahaniaeth ansoddol diderfyn' rhwng Duw a ninnau, ac fe'i mynegwyd gan sylw Karl Barth fod 'Duw yn y nefoedd ac rwyt ti ar y ddaear'. Caiff *trosgynoldeb moesol* diddiwedd Duw ei bortreadu yn naioni, cariad a chyfiawnder perffaith Duw.

Os yw Duw mor wahanol i ni mewn natur a gweithgaredd, yna mae i'w ddisgwyl y bydd Duw yn dangos *trosgynoldeb epistemolegol* hefyd: hynny yw, y bydd Duw yn mynd y tu hwnt i wybodaeth a phrofiad dynol, ac felly gellir dweud ei fod 'y tu hwnt i ddeall'. Bydd trosgynoldeb Duw yn cael ei adlewyrchu hefyd yn yr iaith a ddefnyddir i gynrychioli Duw, ac yn arbennig yn athrawiaeth anrhaetholdeb Duw.

**Profiad crefyddol ac iaith grefyddol**

O ganlyniad i drosgynoldeb Duw, mae natur y profiad crefyddol ei hun, yn ogystal â'i wrthrych tybiedig, yn trosgynnu iaith ddynol: mae'n straen ar adnoddau disgrifiadol unrhyw un sy'n ceisio'i egluro. Mae hyd yn oed emosiynau crefyddol goddrychol, er enghraifft 'dyhead' a 'hiraeth' yr enaid am Dduw, y tu hwnt i rym disgrifio: 'far outpass the power of human telling' (fel yn yr emyn canoloesol, 'Come Down, O Love Divine',). Mae'r profiad crefyddol a'r teimlad crefyddol ill dau yn 'mynd y tu hwnt' i ddisgrifiad.

Yn y profiad cyfriniol a nwminaidd, fodd bynnag, y mae'r profiad crefyddol a'i wrthrych yn cael eu disgrifio yn gyson fel rhy fawr, rhy eithafol, rhyw 'ofnadwy' neu rhy sanctaidd i gael eu mynegi'n ddigonol mewn geiriau. Maent yn cael eu disgrifio'n gyffredin felly fel 'anfynegadwy', 'amhosibl ei ddweud', amhosibl ei gyfleu', 'annisgrifiadwy', 'y tu hwnt i eiriau' neu '*anhraethol*' (o'r Lladin *effari*, mynegi; neu'r hyn y gellir ei ddisgrifio mewn geiriau).

Mae Rudolf Otto yn ysgrifennu am y *profiad nwminaidd* fel rhywbeth a 'all fod y gostyngeiddrwydd distaw, crynedig a mud y creadur ym mhresenoldeb – pwy neu beth? Ym mhresenoldeb yr hyn sydd yn *Ddirgelwch* anfynegadwy uwchlaw pob creadur'. Mae Otto yn nodweddu gwrthrych 'Cwbl Arall' profiad o'r fath, y *numen*, drwy ddefnyddio'r ymadrodd Lladin *mysterium tremendum*, er mwyn mynegi mawredd brawychus ac anorchfygol, aruthredd ac egni'r hyn sydd ' y tu hwnt i'n dirnadaeth a'n dealltwriaeth' (Otto, 1925, tt. 12, 13, 25, 28).

Mae William James yn cofnodi anhraetholdeb fel un o nodau pendant yr hyn mae'n disgrifio'n fras fel y *profiad cyfriniol*. Gan 'na all adroddiad digonol o'i gynnwys gael ei roi mewn geiriau' ysgrifenna James, mae cyfriniaeth y 'tu hwnt i fynegiant'. Ar un pwynt, mae'n disgrifio'r sefyllfa hon fel rhywbeth tebyg i geisio cyfathrebu â'r rheiny sydd heb 'galon neu glust' am gerddoriaeth, neu fod mewn cariad, pan mae rhywun yn ceisio'u cael i ddeall y profiadau hynny (James, 1960, lectures XVI-XVII, t. 367).

Gall anhraetholdeb gyfeirio at y profiad ei hun neu at ei wrthrych, ac mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y ddau yn aml. Hyd yn oed os yw'r profwr crefyddol yn cwrdd â Duw/y dwyfol/Realiti Eithaf, mae llawer yn dadlau y mae'n rhaid i'r hyn y mae ef neu hi yn dod i adnabod fel hyn fod yn hollol anhrosglwyddadwy, gan fod ei gynnwys yn mynd y tu hwnt i'r meddwl dynol. Yn arbennig, beth bynnag mae cyfriniwr yn ei roi mewn geiriau 'ar y gorau trosiad ydyw, aralleiriad o'r hyn a welodd'. Wrth i gyfrinwyr symud i'r hyn a elwir yn gwmwl o anwybod, mae geiriau'n ddiffygiol: 'mae'r ôl olaf o feddwl neu gariad dynol yn dod i ben ac mae'r anrhaethol yn symud i mewn' (Knowles, 1979, tt. 73, 99). Fel hyn yr ysgrifennodd y cyfrinydd o'r unfed ganrif ar bymtheg, Ioan o'r Groes, am y profiad

cyfriniol:

> Mae fel rhywun yn gweld rhywbeth nas gwelwyd erioed o'r blaen, nad yw wedi gweld ei debyg; er efallai ei fod yn deall ei natur a bod ganddo brofiad ohono, ni fyddai'n gallu rhoi enw iddo, na dweud beth ydyw, faint bynnag y ceisiai, ac mae hyn er gwaetha'r ffaith iddo ei ddirnad gyda'r synhwyrau. Faint yn llai, felly, y gallai ef ddisgrifio rhywbeth sydd heb fynd i mewn trwy'r synhwyrau! (John of the Cross, *Dark Night of the Soul*, bk. II, ch. XVII, §3; *ET* 1959, pp. 83-84)

Roedd Denys (neu 'Pseudo-Dionysius') o'r chweched ganrif yn ddylanwad ar nifer o gyfrinwyr diweddarach. Roedd yn gwrthod y syniad y gellid dirnad Duw drwy'r synhwyrau corfforol ond dim ond drwy 'lygaid uwch-gosmig', a mynnai fod pob honiad yn methu â disgrifio Duw mewn geiriau neu symbolau. ('Gellir priodoli popeth iddo Ef [Duw] ar yr un pryd, ac eto nid yw'n un o'r pethau hyn.') I Denys, mae'r realiti eithaf 'yn trosgynnu pob honiad drwy fod yn Achos perffaith ac unigryw pob peth, ac mae'n trosgynnu pob negyddol drwy oruchafiaeth Ei natur syml ac absoliwt - yn rhydd rhag pob cyfyngiad a'r tu hwnt iddynt i gyd' (*Mystical theology*, ch. V, *ET* 1920, p. 201). 'Nid yw Duw mewn unrhyw ffordd fel y pethau sydd â bodolaeth ac nid ydym yn gwybod dim am Ei drosgynoldeb anhraethol a'i anweledigrwydd' (*Celestial hierarchy,* 141A*, ET* 1987, p. 150).

Mae diwinyddiaeth negyddiad Denys (ei *ddiwinyddiaeth apoffatig*)[2] yn disgrifio'r enaid yn esgyn ac yn mynd y tu hwnt i wybodaeth a dirnadaeth i dywyllwch Duw ac yn mynd yn 'gwbl ddieiriau' wrth iddo, mewn ymostyngiad ac ecstasi llwyr, uno â 'Duw sydd yn gwbl annirnadwy' (*Mystical theology*, 1.3, *ET* 1981, t. 173).

Mae *apophasis* yn mynnu fod Duw yn 'ddirgelwch llwyr cwbl anodd ei ddeall' a'r cyfan y gallwn ddweud *yw'r hyn nad ydyw*. Nid yw Duw, mewn gwirionedd, yn unrhyw un o'r pethau mae'n cael ei alw. Roedd Denys yn gwahaniaethu rhwng hyn a *diwinyddiaeth gadarnhaol neu gataffatig*, sy'n rhoi enwau cadarnhaol ar Dduw, fel 'Bywyd' a 'Bod'. Ond mae'r 'un sy'n deall', mae'n honni, yn ymwrthod â holl amgyffrediad ei ddealltwriaeth', gan wrthod pob gwybodaeth am Dduw, sydd yn 'gwbl Annirnadwy'. 'Nid yw'n enaid, na meddwl, ... ac ni all rheswm Ei gyrraedd I'w enwi neu I'w adnabod' (Pseudo-Dionysius, *Mystical theology*, chs 1, 5; *ET* 1940, tt. 194, 200-201).

Mae Walter Stace ac, yn fwy diweddar, Robert Forman wedi awgrymu fod anhraetholdeb yn wir am brofiad *tra'i fod yn cael ei brofi*. Ar 'fodel anghofio' Forman, wrth i'r cyfrinydd gymryd rhan mewn gweithgareddau myfyriol sy'n lleihau ei weithgaredd gwybyddol, mae 'iaith, pob iaith, yn cael ei hanghofio' *yn ystod* y profiad cyfriniol hwnnw. Felly, *nid* yw unrhyw iaith a ddefnyddir i ddisgrifio neu adrodd am y profiad hwnnw yr iaith a ddefnyddiwyd yn y digwyddiad ei hun' (Forman, 1990, t. 41).

**Disgrifio Anhraetholdeb?**

Mae llawer o'r amddiffyniad o anhraetholdeb fel pe'n tybio fod yr hyn a alwyd yn *anhraetholdeb diffiniol*, 'sy'n dal, gan fod "gwrthrych" [neu gynnwys] crefydd (ac mae'n debyg, profiad crefyddol) yn anhraethol ... a chan nad oes modd diffinio'r hyn sy'n anhraethol, ni ellir dweud dim am y "gwrthrych" hwn' (Yandell, 1975, t. 167). Os mai dyma ystyr anhraethol, fodd bynnag, mae problem resymegol gyda defnydd y term p'un ai am brofiad crefyddol neu ei

[2] Mae'r gair Groeg. *Apophasis*, yn golygu'n llythrennol 'dweud na' neu 'dweud yn negyddol', ond 'gall hefyd gyfleu ystyr "datguddiad"' (Coakley, 2009, t. 281, n. 3).

wrthrych: gan y byddai'n ymddangos yn wrthddywediad. Fel y dywedodd Awstin, 'os mai anhraethol yw'r hyn na ellir ei fynegi, yna nid yw'r hyn a elwir yn anhraethol yn anhraethol' (*On Christian doctrine*, bk. I, ch. 6; ET 1958, tt. 10-11). Nid yw hyn oed y dad-ddweud (gwadu) honiadau am Dduw, a gyflawnir drwy dynnu pob delwedd ddynol neu feidraidd o iaith am Dduw, yn gwbl annisgrifiadol. Oherwydd mae dweud yr hyn *nad yw* Duw fel petai yn dweud rhywbeth llythrennol am Dduw.[3]

Felly, ni ddywedir fel arfer fod Duw/yr Abosliwt/Brahman, nac unrhyw brofiad o'r realiti hwn, yn *gwbl* annisgrifiadwy. Byddai dirgelwch llwyr y tu hwnt i'r holl eiriau, ac felly yr holl ddiwinyddiaeth. Byddai'n arwain at ffurf lwyr o agnosticiaeth, o beidio â gwybod *dim* am natur profiad crefyddol neu ei wrthrych. Yn hytrach, gallwn ddymuno cadw'r gair 'anhraethol' ond meddwl yn nhermau *graddfeydd o 'anhraetholdeb'* (fel y soniwn am raddfeydd o agosrwydd, neu addasrwydd, gwahanol gyfatebiaethau i rywbeth) - gyda 'cwbl anhraethadwy' yn gorwedd ar (neu y tu hwnt i?) un ochr neu derfyn y raddfa, yn nodi beth fyddai y tu hwnt i bob disgrifiad.

Mae rhai athronwyr wedi nodi, mewn cyferbyniad, statws trefn dau i iaith anrhaetholdeb, sef dim ond yn dweud wrthym sut i ddefnyddio a dehongli iaith y cyfrinwyr a'r rhai eraill a gafodd brofiadau crefyddol (cf. Gellman, 2005, t. 143). Er enghraifft:

- Mae Wayne Proudfoot (1985, t. 127) yn dadlau fod iaith anhraetholdeb yn cael ei defnyddio fel *rheol ramadegol*, 'maen prawf ar gyfer adnabod profiad fel un cyfriniol'. Yn y rôl hon y cyfan mae'n ei ddweud wrthym yw na all y profiad fyth gael ei ddal ('ei ddal yn llwyr', efallai?) mewn geiriau, ac felly mae'n creu teimlad o ddirgelwch yn y gwrandäwr neu'r darllenydd.

- Yn ôl Richard Gale dim ond teitl anrhydeddus yw'r term sy'n nodi'r arwyddocâd a'r gwerth anfesuradwy' sydd gan y profiad i'r cyfrinydd, y mae iaith yn efelychiad tlawd iawn ohono' (Gale, 1960, t. 474).

- Mae Ninian Smart yn ein hatgoffa nad yw iaith anhraetholdeb/natur annisgrifiadwy yn unigryw i brofiad crefyddol ac na ddylid ei chymryd mewn ffordd absoliwt. Yn hytrach, mae'n gweithio fel 'math arbennig o gryfhäwr' sy'n mynegi annigonolrwydd ein hiaith ddisgrifiadol, yn ogystal â gwneud disgrifiad eithriadol – fel gyda'r ymadrodd mwy cyffredin 'Allai byth ddweud pa mor ddiolchgar ydw i' (Smart, in Katz, 1978, tt. 17–20).

- Mae eraill wedi dadlau fod y term yn nodi'r iaith a ddefnyddir i adrodd ar wrthrych profiad crefyddol fel rhywbeth *an-wybyddol*; yn yr ystyr nad yw'n honni nac yn gwadu ffeithiau, *nad yw'n ddisgrifiadol*. 'Nid yw dweud fod profiad yn anhraethol yn dweud ei bod yn amhosibl ei fynegi, ond mae'n ffordd o'i fynegi, hynny yw, ffordd o ddweud nad yw'n ieithyddol' (Short, 1995, t. 667).

Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr iaith grefyddol yn cydnabod fod dirgelwch pendant yn natur Duw/y Realiti Eithaf, rhywbeth na ellid ei ddal yn llwyr gan *unrhyw* ddisgrifiad dynol, maent yn gwneud hyn heb roi'r gorau i dasg diwinyddiaeth yn llwyr drwy alw ar anhraetholdeb llwyr Duw - mae'n well ganddynt yr hyn a alwyd yn 'anhraetholdeb cyfyngedig a thros dro'

[3] 'Mae datganiadau negyddol yn amlwg yn llythrennol. Nid oes ôl trosiad wrth ddweud "Mae Duw yn anfaterol, yn ddi-amser . . . "' (Alston, 2005, p. 238).

(Kwan, 2011, t. 55). Felly, mae'r rhan fwyaf o ddiwinyddion ac ysgrifenwyr crefyddol myfyriol yn cadw'n weddol glir o'r 'ffordd negyddol', mae'n well ganddynt droedio llwybr mwy 'cadarnhaol' neu 'bositif', drwy wrthod tawelwch neu negyddiad llwyr o blaid

(a) *naill ai* ddefnyddio geiriau dynol fel 'doeth' neu 'yn bodoli' yn llythrennol ond yn gydweddol am Dduw;
(b) *neu* eu defnyddio'n ffigurol, yn enwedig yn drosiadol, 'siarad am un peth mewn termau a welir sy'n awgrymu rhywbeth arall' (Soskice, 1985, p. 15): lle datgenir fod Duw – 'ond *nid* yn llythrennol' – yn dad, mam, brenin, bugail, cyfaill; hyd yn oed llew, caer neu graig.

**Dirgelwch Duw**

Serch hynny, gellid dadlau po gryfaf y cawn ein hargyhoeddi am 'natur ddirgel, ddiderfyn, a throsgynnol Duw', y mwyaf tebygol yr ydym i drin unrhyw eiriau am y Duw hwn fel rhai 'mor annigonol fel eu bod yn ddiwerth – neu hyd yn oed yn gableddus' (Wiles, 1976, t. 58). Fel y dywedodd diwinydd arall, 'oherwydd bod Duw yr eithaf, ... mae'n disgyn y tu allan i'r categorïau a ddefnyddir i ddosbarthu pethau a digwyddiadau yn y byd ... Pan fyddwn yn defnyddio geiriau i siarad am Dduw, nid ydym yn disgrifio ond yn pwyntio; ddim yn gafael ond yn awgrymu' (Norris, 1979, tt. 51-52). Fel y gwelsom, mae dirgelwch yn rhannol yn gydnabyddiaeth o drosgynoldeb Duw; ac mae Duw fel yr 'arall' yn aml yn cael ei bortreadu'n drosiadol, mewn trosiadau gofodol, fel 'y tu allan', 'goruwch' neu 'y tu hwnt i' bob creadigaeth – fel 'ymhell' neu 'yn oruchaf' (gweler Salmau 97:9; 113:4-6). Mae'r iaith honno bron yn ymddangos yn ffurf o arwyddo ieithyddol.

Dywedodd Awstin ei hun yn fod hyd yn oed yr un sydd â'r mwyaf i ddweud am Dduw, mewn gwirionedd, yn fud; ac na all athrawiaethau a chredoau wneud dim mwy nag 'osgoi ateb dirgelwch'. Ai tawelwch, felly, yw'r ymateb cywir i ddirgelwch Duw? Wel, nid oedd yr un o'r diwinyddion a ddyfynnir yn yr adran hon yn meddwl hynny, er eu bod yn cytuno fod iaith ddynol yn siŵr o ymddangos yn gyfrwng annigonol i ddisgrifio a dehongli'r dwyfol/y Realiti Eithaf. Bu i Immanuel Kant geryddu unwaith y rheini a oedd yn ceisio rhoi byd y synhwyrau i fyny ar y sail fod y synhwyrau'n cyfyngu ar ein dealltwriaeth, drwy eu cymharu â cholomen sy'n dychmygu y byddai'n haws hedfan mewn gofod gwag. I bobl, gallem ddweud, nid oes dewis ond defnyddio iaith y synhwyrau fel cyfrwng i fynegi'r hyn sydd y tu hwnt iddynt.

Gall rhywun ddadlau, ymhellach, pa bai pawb sy'n honni iddynt gael profiad o Dduw, neu o unrhyw realiti trosgynnol arall, yn mabwysiadu polisi tawelwch, ni fyddai pobl eraill yn elwa ar eu profiad. I hynny ddigwydd, mae'n rhaid cael cyfathrebu, ac mae hwnnw'n gofyn am gyfrwng iaith. Mae llawer o'r rheini sydd wedi adnabod ffurfiau mwyaf eithafol profiad crefyddol wedi teimlo fod yn rhaid iddynt ddweud *rhywbeth*, yn hytrach na dewis tawelwch llwyr fel eu hunig ymateb.

Nid yw dirgelwch yn fater o ddiwinyddiaeth ac iaith ddisgrifiadol yn unig, fodd bynnag, neu hyd yn oed o brofiad crefyddol. Mae hefyd yn agwedd a deimlir yn ddwfn o lawer o addoliad crefyddol. Mewn Iddewiaeth ac (yn arbennig) Islam, mae cred yn arallrwydd eithaf Duw wedi arwain at wrthwynebu cynrychioliadau darluniadol o'r dwyfol. Ac mae Cristnogaeth hefyd weithiau wedi cael perthynas sigledig â delweddaeth. Dioddefodd eiconograffeg Uniongred Ddwyreiniol, er enghraifft, ddau gyfnod o 'eiconoclastiaeth' neu 'ddryllio delwau'; a dioddefodd llawer o gerfluniaeth,

murluniau a gwydr lliw yn adeiladau eglwysi Cristnogaeth Orllewinol yn nwylo Protestaniaid radical fel y Piwritaniaid. Roedd y gwrthwynebiad hwn i'r (hyn oedd yn cael ei ddehongli fel) eilunaddoliaeth yn amlwg yn fynegiant ymarferol o ymrwymiad sylfaenol i ddirgelwch Duw, a oedd yn cael ei arllwys yn fwyaf llym at addoliad a duwioldeb.

Mae William Wainwright yn gywir felly, wrth wahaniaethu rhwng dau fath o ddirgelwch (Wainwright, 2009, tt. 94-95).

- Mae *dirgelion epistemolegol* am Dduw yn 'swyddogaeth o'r berthynas rhwng natur neu fodolaeth Duw ...a chyfyngiadau dealltwriaeth a grëwyd'. Nid oes gennym *ni'r* cysyniadau digonol. Mae Wainwright yn dadlau fod 'cartref' y drafodaeth am y dirgelion hyn mewn *diwinyddiaeth* athronyddol.

- Mae *dirgelion ontolegol*, fodd bynnag, yn 'agwedd gynhenid o fodolaeth Duw ei hun' ac 'ni all *unrhyw* gysyniadau eu mynegi'n llwyr'. Mae cartref y dirgelion hyn mewn defosiwn ac addoliad yn bennaf: hynny yw, o fewn *arfer* crefydd. Ac maent yn cael eu mynegi orau – er yn amherffaith 'gan symbolau, barddoniaeth, ac efallai yn y pen draw, gan dawelwch gweddi gyfrin.'

## Geirfa

*anhraethol*: yn cael ei ddefnyddio am rywbeth na ellir ei fynegi, dirgelwch sy'n rhy eithafol, yn rhy fawr neu'n rhy sanctaidd i'w roi mewn geiriau.

*apoffaticiaeth a diwinyddiaeth apoffatig*: (yn arbennig o nodweddiadol o Gristnogaeth Ddwyreiniol) ffordd o fynd at Dduw a siarad am Dduw lle mae rhywun yn tynnu i ffwrdd ddelweddau a geiriau synhwyraidd, a nwydau dynol, pechod ac anwybodaeth, er mwyn cwrdd â'r Trosgynnol mewn tywyllwch dwyfol y tu hwnt i gysyniadau, wedi'i oleuo gan gariad dwyfol.

*cydweddiad*: tebygrwydd neu rywbeth-tebyg-gyda-gwahaniaeth; yn Aquinas a Thomistiaeth, ffordd o siarad am Dduw drwy ddefnyddio iaith yn llythrennol ond gydag ystyr estynedig, oherwydd mae Duw wir yn 'ddoeth' neu'n 'dda' ond mewn modd sy'n addas i natur drosgynnol Duw.

*ffordd gadarnhaol, bositif*: dyma ffordd diwinyddiaeth 'gataffatig' o siarad am Dduw drwy ddefnyddio nodweddion sy'n deillio o greadigaeth Duw (yn arbennig bodau dynol) fel arwyddion o berffeithrwydd Duw.

*ffordd negyddol neu ffordd negyddiad (via negativa or via negationis)*: er eu bod yn cael eu defnyddio weithiau mor eang ag apoffaticiaeth, mae'r termau hyn fel arfer ddim ond yn cyfeirio at ffordd o siarad am Dduw/yr Eithaf sy'n pwysleisio cyfyngiadau iaith ddynol drwy ddweud beth nad yw Duw: e.e. anfarwol (ddim yn farwol), anfeidrol (ddim yn feidrol), tragwyddol (ddim mewn amser).

*trosgynoldeb*: gwahaniaeth, arallrwydd.

## Dolenni rhyngrwyd

https://plato.stanford.edu/entries/mysticism/, § 2.4, 3.1 (*Stanford Encyclopedia of Philosophy*, Jerome Gellman on 'Mysticism')

http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/challengingreligiousissues/Issue%203_ChallengingReligiousIssues.pdf (*CRI*, Jeff Astley on 'Describing God')

http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/challengingreligiousissues/Issue%2012%20Challenging%20Religious%20Issues%20English.pdf (*CRI*, Jeff Astley on 'Rudolf Otto on religious experience')

## Pwyntiau trafod

1. 'Os mai'r anhraethol yw'r hyn na ellir ei siarad, yna nid yw'r hyn a elwir yn anhraethol yn anhraethol' (Awstin). Trafodwch.
2. Rhoddodd Thomas Aquinas y gorau i ysgrifennu ei draethawd hirfaith, y *Summa Theologiae*, ar ôl cael profiad crefyddol dwfn yn ystod yr Offeren. 'Mae'r cyfan a ysgrifennais', cyfaddefodd, yn ymddangos bellach 'fel gwellt'.Ydi hyn yn golygu na all unrhyw un o'i ysgrifau diwinyddol ddweud rhywbeth wrthym am Dduw?
3. Ym mha ffyrdd y gellir dweud fod Duw yn 'drosgynnol' ac yn 'ddirgelwch', a pham?
4. Ydi'r dwyfol yn 'gwbl arall' fel y dywedodd Otto?

## Cyfeiriadau


Alston, William P. (2005). Religious language. In *The Oxford handbook of philosophy of religion* (pp. 220-244). Ed. William J. Wainwright, New York: Oxford University Press.

Astley, Jeff. (2004). *Exploring God-Talk: Using language in religion*. London: Darton, Longman and Todd.

Augustine. (1958). *On Christian doctrine*, *ET* Indianapolis, Indiana: Bobbs-Merrill.

Coakley, Sarah. (2009). Dark contemplation and epistemic transformation: The analytic theologian re-meets Teresa of Avila. In *Analytic theology: New essays in the philosophy of theology* (pp. 280-312). Eds. Oliver D. Crisp & Michael C. Rea, Oxford: Oxford University Press.

Denys (or Pseudo-Dionysius) the Areopagite. (1920, 1940). *Mystical theology*. *ET* London: SPCK; (1981) Oxford: Oxford University Press.

Denys (or Pseudo-Dionysius) the Areopagite. (1987). *Celestial hierarchy*. *ET* Mahwah, New Jersey: Paulist Press.

Forman, Robert K.C. (Ed.) (1990). *The problem of pure consciousness: Mysticism and philosophy*. New York: Oxford University Press.

Gale, Richard M. (1960). Mysticism and philosophy. *Journal of Philosophy*, *57*(14), 471-481.

Gellman, Jerome I. (2005). Mysticism and religious experience. In *The Oxford handbook of philosophy of religion* (pp. 138-167). Ed. William J. Wainwright, New York: Oxford University Press.

James, William. (1960). *The varieties of religious experience: A study in humanNature*. London: Collins. [The Random House, New York, 1929 edition is available online at http://web.archive.org/web/20080727010425/http:/etext.lib.virginia.edu:80/toc/modeng/public/JamVari.html

John of the Cross. (1959). *Dark night of the soul, ET* Mineola, New York: Dover.

Katz, Steven T. (Ed.) (1978). *Mysticism and philosophical analysis*. New York: Oxford University Press.

Knowles, David. (1979). *What is mysticism?* London: Sheed and Ward.

Kwan, Kai-man. (2011). *The rainbow of experiences, critical trust, and God: A defence of holistic empiricism*. New York: Bloomsbury.

Norris, Richard A. (1979). *Understanding the faith of the church*. New York: Seabury.

Otto, Rudolf. (1925). *The idea of the holy. ET* London: Oxford University Press.

Proudfoot, Wayne. (1985). *Religious experience*. Berkeley, California: University of California Press.

Short, Larry. (1995). Mysticism, mediation, and the non-linguistic. *Journal of the American Academy of Religion*, *69*(4), 659-675.

Soskice, Janet Martin. (1985). *Metaphor and religious language*. Oxford: Clarendon.

Wiles, Maurice (1976). *What is theology?* Oxford: Oxford University Press.

Yandell, Keith E. (1975). Some varieties of ineffability. *International Journal for Philosophy of Religion*, *6*(3), 167-179.

Wainwright, William J. (2009). Theology and mystery. In *The Oxford handbook of philosophical theology* (pp. 78-102). Eds. Thomas P. Flint & Michael C. Rea, Oxford: Oxford University Press.


*Jeff Astley yw Athro Profiad Crefyddol ac Ysbrydol Alister Hardy ym Mhrifysgol yr Esgob Grosseteste, Lincoln ac mae'n athro anrhydeddus ym Mhrifysgol Durham a York St John. Ef yw awdur* Exploring God-Talk: Using Language in Religion *(DLT, 2004) a'r* SCM Studyguide to Religious and Spiritual Experience *(SCM Press, 2020).*

Herio Materion Crefyddol
Rhifyn 16 Gwanwyn 2020
© Jessie Fubara-Manuel ac Elijah Obinna

Canolfan y Santes Fair
a Sant Silyn
ISSN 2053-5171

# Gwnaed ar Ddelw Duw: Profiad Merch ag Anabledd yn Nigeria

Jessie Fubara-Manuel ac Elijah Obinna

*Mae'r erthygl hon yn trafod y datganiad Cristnogol fod dynoliaeth (gyda neb heb anableddau) wedi'i gwneud ar ddelw Duw. I bobl anabl mae'r datganiad hwn yn gysur a gallai fod yn sail i siwrne dorfol cymdeithas tuag at gydraddoldeb, urddas a chyfiawnder i bob unigolyn.*

*Cysylltiadau â'r Fanyleb:*
*AQA Lefel A Elfen 2: Astudiaeth Crefydd a Deialogau; 3:2.2, 2B Cristnogaeth: Ymddygiad Da a Phrif Egwyddorion Moesol; Sancteiddrwydd Bywyd, a'r Cysyniad o Sancteiddrwydd bywyd. Cristnogaeth a Her Seciwlareiddio; Pwyslais ar berthnasedd cymdeithasol Cristnogaeth yn cynnwys ymagweddau rhyddhaol fel cefnogi'r tlawd ac amddiffyn y gorthrymedig.*
*EDEXCEL Papur 2: Crefydd a Moeseg. 1. Cysyniadau Arwyddocaol mewn pynciau neu drafodaethau mewn crefydd a moeseg. 1.2 Cydraddoldeb (a) Cysyniadau moesegol a chrefyddol o gydraddoldeb, yn cynnwys materion rhywedd neu hil neu anabledd a gwaith un ffigwr arwyddocaol mewn ymgyrchoedd dros gydraddoldeb yn y maes a ddewiswyd ... Gan gyfeirio at syniadau Joni Eareckson Tada.*
*OCR H573/01: 2c Cynnwys Athroniaeth a Chrefydd. 3. Duw a'r Byd: Profiad Crefyddol, natur a dylanwad profiad crefyddol.*
*CBAC TAG UG/SAFON UWCH mewn Astudiaethau Crefyddol; Safon Uwch Uned 3:Astudiaeth o Grefydd – Opsiwn A: Astudiaeth o Gristnogaeth; Gwybodaeth am Grefydd a Chred a Dealltwriaeth Ohonynt; c. Y berthynas rhwng crefydd a chymdeithas: crefydd, cydraddoldeb a gwahaniaethu.*

## Cyflwyniad

> Dywedodd Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl yn llun ni...' Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy. (Genesis 1:26a-27)

Nid cyfeiriad at athrawiaeth yn unig yw'r datganiad Cristnogol fod dynoliaeth wedi'i chreu ar ddelw Duw, ond haeriad a anelwyd at hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder ac urddas i bob unigolyn. I bobl anabl, mae'n rhoi sicrwydd fod pob bywyd, gyda neu heb anabledd, yn

werthfawr oherwydd ein bod i gyd wedi'n gwneud ar ddelw Duw. Mae'r safbwynt hwn yn rhoi ymateb credadwy i'r amrywiol fathau o wahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn llefydd cymdeithasol a chrefyddol.

Mewn llawer o gyd-destunau, mae gwahaniaethu yn aml wedi'i dargedu at yr hyn y tybir sy'n 'wahanol' ac anallu'r gymdeithas i ymateb yn ddigonol i'r hyn mae'n ystyried yn 'wahanol' (Fritzson, 2012). Ymhlith llawer o gymunedau Affricanaidd, mae gwahaniaethu yn aml yn cael ei lywio gan stereoteipiau crefyddol a diwylliannol; ac mae anabledd yn aml yn cael ei ystyried yn ganlyniad rhyw ddrygioni yn erbyn y duwiau neu gyndeidiau, ac felly mae pobl anabl yn aml yn cael eu hystyried yn aflan. O ganlyniad, mae pobl anabl fel arfer yn cael eu heithrio, p'un ai bod yr eithriad hwn yn digwydd ar ffurf cael eu rhoi'r golwg (mewn sefydliad/eu cadw yn y tŷ) neu ddim yn cael cymryd rhan ym mywyd y gymuned. Pan mae pobl anabl yn ceisio codi uwchben y gwahaniaethu hwn, mae'n bosibl eu bod yn cael eu clodfori am gyflawni cymaint er gwaetha'u hanableddau, fel pe na bai neb yn meddwl y byddent wedi cyflawni fawr ddim yn y lle cyntaf.

Yn tynnu ar waith Joni Eareckson Tada, ymgyrchydd anableddau Americanaidd, mae'r erthygl hon yn canolbwyntio ar safbwyntiau a phrofiadau go iawn Fiona Effiong, menyw o Nigeria a gollodd ddefnydd eu dwy goes o ganlyniad i ddamwain car. Mae'r ddwy fenyw yn mynegi sut mae eu dealltwriaeth o gael eu gwneud ar ddelw Duw yn eu helpu i ymdopi â brwydrau anabledd ac anghydraddoldeb. Mae'r erthygl yn edrych ar sut mae priodoli delw Duw i'r 'hunan' yn caniatáu cadarnhau bod creiddiol dynoliaeth. Mae'n dadlau na ddylai anabledd leihau hanfod person. I'r gwrthwyneb, gallai'r datganiad ein bod i gyd wedi'n gwneud ar ddelw Duw wella'r siwrne tuag at gydraddoldeb a chyfiawnder i bawb.

**Deall y cyd-destun**

Roedd Fiona yn fyfyrwraig prifysgol 24 oed pan ddigwyddodd y ddamwain. Mae hi'n cofio'i chefn yn taro'n galed yn erbyn y ffordd dar a hithau'n bownsio ar ymyl llym y gwter. Mae'n cofio teimlo'n ddiffrwyth a meddwl pam nad oedd hi'n gallu symud. Ar ôl sawl ymweliad â'r ysbyty a llawdriniaethau, dywedwyd wrthi ei bod yn paraplegig, math o barlys sy'n golygu fwy neu lai nad yw ei chorff yn gweithio o'r canol i lawr.

Cafodd Fiona ei geni i deulu Cristnogol yn ne-de Nigeria, un o chwe pharth daearyddol-gwleidyddol y wlad. Gyda dros 180 miliwn o bobl yn Nigeria, dyma 'wlad fwyaf poblog Affrica, yr wyth mwyaf poblog yn y byd lle mae mwyafrif y boblogaeth yn ddu'. Mae Nigeria'n meddu ar 'deyrngarwch diwylliannol a chrefyddol, plwraliaeth ethnig a gwahaniaethau ieithyddol yn ogystal â phrofiadau hanesyddol amrywiol' (Obinna, 2013, t. 29). Yn ne-de Nigeria, Cristnogion yw mwyafrif y boblogaeth, tra bod cyfran fach yn arddel crefydd gynhenid Affricanaidd, Islam neu grefyddau eraill. Mae Fiona yn un o 15% o boblogaeth Nigeria sy'n byw gydag amrywiol fathau o anableddau. Er gwaetha'r ffaith fod Nigeria yn gyfoethog mewn olew a nwy, mae diffyg isadeiledd o ran darpariaeth gofal meddygol a chymdeithasol, a chyfleusterau addysgol. Felly nid oedd Fiona'n gallu cael gwasanaethau iechyd adferol digonol nac addysg. Yn dilyn diffyg meddygaeth Orllewinol i allu 'gwella' ei pharlys, aeth teulu Fiona â hi at nifer o wasanaethau iachau trwy ffydd, ysgolion gwyrthiau a gweinidogaethau gweddi, ond heb gael unrhyw wellhad corfforol.

Er bod gan Nigeria bolisi cadarn ar

gynhwysiad anabledd, nid oes digon o weithredu gwleidyddol angenrheidiol i ddiwallu angen pobl anabl neu i sicrhau fod yr anghenion hynny'n cael eu gwireddu, yn gyhoeddus ac yn breifat (Ajayi, et al;, 2020). Roedd damwain car Fiona a'r ffaith nad oedd yn gallu cyrchu triniaeth feddygol ddigonol yn golygu fod ei bywyd, fel roedd hi'n gyfarwydd ag ef, gyda mynediad at addysg, mannau crefyddol, gofal iechyd a bywyd cymdeithasol, drosodd. Yn y cyfarfodydd gweddi, gofynnwyd iddi gyffesu ei phechodau a chael ffydd mewn Iesu Grist er mwyn cael ei hiachau. Ni allai'r gefnogaeth gan ei theulu ei hun ei gwarchod rhag y gwarth yr oedd y gymdeithas yn ei roi arni oherwydd ei hanabledd.

Roedd ei hanabledd wedi gwneud iddi deimlo'n wahanol oherwydd mae'n ymddangos ei bod yn normal i'r gymdeithas drin pobl anabl fel rhai gwahanol mewn ffordd ddim-mor-dda (Cromwell, 2019, t. 8). Roedd hi'n teimlo iddi golli ei hunaniaeth fel person a'i bod mwyach yn cael ei diffinio gan ei chyflwr paraplegig. Mae'r ffordd yma o ddisgrifio neu ddiffinio pobl drwy eu hanableddau yn gwrthod eu gwerth, yn bychanu eu galluoedd a gellir ei ystyried yn fath o gam-drin cymdeithasol (Fubara-Manuel, 2014, tt. 56-60). Dywed Fiona y bu'n rhaid iddo bwyso y tu mewn iddi hi ei hun i ddod o hyd i'w hanfod o fewn ethos ei chred grefyddol er mwyn gallu ymdopi â heriau gwahaniaethu mewn bywyd bob dydd.

**Anabledd a delw Duw**

Er bod Fiona'n honni, ynghanol heriau ei hanabledd, fod y ffaith ei bod yn gwybod iddi gael ei gwneud ar ddelw Duw heb gael ei ddifetha na'i faeddu, nid yw hi'n cyfeirio at unrhyw fyfyrio diwinyddol neu ysgolheigaidd. Fel Cristion, mae Fiona'n mynnu 'oherwydd ei bod yn cario "delw a llun Duw", fod yna rywbeth o Dduw yn byw y tu mewn iddi' (Beates, 2012, t. 26). Dyma'r hyn y mae diwinyddion yn ei alw '*imago Dei* neu lun Duw mewn dyn; rhywbeth o arwyddocâd hanfodol sy'n gwneud dynolryw yn wahanol i fodau eraill' (Beates, 2012, t. 26). Mae astudiaeth gan Gyngor Eglwysi'r Byd ar arwyddocâd y bod dynol yn cydnabod fod pob bod dynol yn rhannu gwerth anfesuradwy 'beth bynnag eu cyflwr corfforol neu feddyliol', oherwydd bod y ddynoliaeth wedi'i chreu ar ddelw Duw (Cyngor Eglwysi'r Byd, 2005).

I Fiona, hunan-briodoli delw Duw oedd yn gwneud iddi deimlo'n deilwng am fod hanfod Duw yn byw ynddi hi. Ac yma daw'r ysbrydolrwydd Nigeraidd-Affricanaidd i'r amlwg wrth iddo ddarparu mannau preifat a chorfforaethol i bobl drafod, byw ac atgyfnerthu eu hunaniaethau gyda neu heb anableddau. Nid dim ond opiwm y bobl, fel dywedodd Karl Marx, yw crefydd i Fiona, mae'n sail i'r tlawd a'r gorthrymedig fynd drwy realiti eu brwydrau oddi mewn i'r eglwys a hebddi.

I nodi Diwrnod Cenedlaethol Sancteiddrwydd Bywyd 2019 yn America, darlledodd Tada a Nick Vujicic, sylfaenydd *Life without Limps*, gyfweliad. Pan ofynnwyd iddi sut mae hi'n gallu ymdopi â'i hanabledd, yn enwedig wrth symud o fod yn athletwr egnïol i gwadriplegig (wedi'i pharlysu o'r ysgwydda i lawr) yn 17 oed, mae Tada'n ateb:

> Mae'n rhaid i mi gofio ar ba ddelw y'm gwnaed. Rwyf wedi fy ngwneud ar ddelw Duw. Gall fy nghorff fod wedi torri, ond mawredd! rwy'n adlewyrchu Duw. Rwyf yn adlewyrchu Duw anhygoel a oedd yn falch o'm gwneud ar ei ddelw ac mae hynny i mi yn rhyfeddol.

Nid yw'r ffordd y mae Tada'n priodoli ei delwedd fel un sy'n adlewyrchu Duw yn ymddangos yn ddadl ddiwinyddol ond yn un, medd hi, sy'n dod o'i pherthynas â Duw yn Iesu Grist. Yn gynharach yn 1990, roedd hi wedi ysgrifennu:

> Ein neges i bobl yw'r newyddion da fod Iesu Grist wedi marw dros eu pechodau, wedi'i godi o'r marw, ac fel yr Arglwydd sy'n teyrnasu mae ef yn cynnig maddeuant pechodau a rhodd ryddhaol yr Ysbryd i bawb sy'n edifarhau ac yn credu. (Tada, 1990, tt. 20-23)

Mae Tada yn haeru nad yw'r rhodd ryddhaol hon o reidrwydd yn cyfeirio at iachâd corfforol, gan mai dim ond Duw all roi hwnnw; mae hi'n ysgrifennu fod ei hanabledd yn mynd â'i 'meddwl i ffwrdd o atyniadau dros dro ac yn fy ngorfodi i feddwl am Dduw (Colosiaid 3:2)'. Yn hytrach, mae'r rhodd ryddhaol yn cyfeirio at y teimlad o 'werth ac urddas' a 'dim ond yng Nghrist y gall person anabl ei brofi a chael ei weld' (Tada, 1990, tt. 20-23). Mae'r syniad hwn o deilyngdod wedi'i fynegi gan lawer o bobl anabl fel un sy'n codi'n bennaf o berthynas ag Iesu Grist sy'n caniatáu dealltwriaeth o hanfod cael eich gwneud ar ddelw Duw (Cromwell, 2019, t. 16). Yn ei chofiant a gyhoeddwyd yn 1976, *Joni, An Unforgettable Story*, mae Tada'n adrodd hanes ei hanhawster gydag anabledd sydyn ond yn datgan hefyd sut mae ail-sefydlu ei pherthynas ag Iesu Grist ac ail-hawlio ei hunaniaeth ar ddelw Duw yn ei galluogi i flodeuo.

Mae ysgolheigion, gyda neu heb anableddau corfforol, wedi bod yn mynd i'r afael â'r hyn y mae'n ei olygu i fod ar ffurf a delw Duw a pha natur o Dduw sy'n cael ei hadlewyrchu men dynoliaeth. Mae eraill yn gofyn a yw 'tebygrwydd' yn golygu ymddangosiad corfforol (Jenson, 2016, tt. 64-71; Cromwell, 2019, tt. 8-10; Beates, 2012, t. 27). Nid yw'r cwestiynau hyn yn dod o fewn cylch yr erthygl hon, yn enwedig gan nad oedd Tada na Fiona wedi'u hystyried fel ymarfer ysgolheigaidd. Mae rhai wedi ceisio priodoli delwedd Duw i'r gallu i weithredu'n greadigol neu i ddeall yn rhesymegol, ond mae'r farn hon yn creu problemau gan ei bod yn eithrio pobl sydd heb reswm, fel plant ac unigolion ag anableddau deallusol neu afiechydon fel dementia ac Alzheimer's (Cromwell, 2019, t. 9; Jenson, 2016, tt. 64-71).

Ar y llaw arall, wrth haeru eu bod wedi'u gwneud gan Dduw, mae pobl anabl wedi defnyddio Salmau 139:13-14 i gyfeirio at harddwch eu ffurf gorfforol beth bynnag yw anffurfiad eu 'cyrff toredig'.

> Ti a greodd fy ymysgaroedd, a'm llunio yng nghroth fy mam. Clodforaf di, oherwydd yr wyt yn ofnadwy a rhyfeddol, ac mae dy weithredoedd yn rhyfeddol. Yr wyt yn fy adnabod mor dda.

I gymdeithas lle mae stigma wrth 'amherffeithrwydd corfforol', a lle defnyddiwyd geiriau negyddol yn aml i ddisgrifio anabledd, dywed Fiona fod yn rhaid tynnu'r her i werth yr unigolyn o 'ddealltwriaeth ddyfnach' fod 'pawb' wedi'u gwneud ar ddelw Duw, sy'n golygu cydraddoldeb creadigaeth i *bob bod dynol*. Nid yw anabledd, ychwanega Fiona, yn erydu'r cydraddoldeb hwn a roddwyd yn y creu - waeth beth fo'r ffurf gorfforol.

Mae llawer o grwpiau lleiafrifol wedi dadlau eu hachos dros gydraddoldeb yn seiliedig ar y ddealltwriaeth hon. Soniodd ymgyrchwyr cydraddoldeb hiliol fel Martin Luther King Jnr, am 'urddas cynhenid' pob 'unigolyn, fel plant i Dduw', oherwydd ein bod ni i gyd wedi

cael ein creu ar ddelw Duw ac felly'n haeddu 'triniaeth gyfiawn a theg' (Wills, 2009, t. 4). Mae Mercy Oduyoye, diwinydd ffeministaidd, yn gwneud y pwynt mai 'dim ond pan mae gwerth cyfartal pob unigolyn yn cael ei amddiffyn y gall perthnasoedd cyfiawn a chariadus oroesi rhwng pobl', a lle mae egwyddor Cristnogol *imago Dei* ar waith (Oduyoye, 1995, tt. 479-489).

Pan greodd Duw ddynoliaeth ar ddelw Duw, gwnaeth Duw ddatganiad drwy ei weithred fod y ddynoliaeth hon wedi'i chreu i gael perthynas o bobl gyfartal, i fod yn ei hanfod yn dibynnu y naill ar y llall (Fritzson, 1998). Mae unrhyw fath o eithrio neu stigmateiddio yn dwyn oddi ar bobl anabl eu hymdeimlad o berthyn i gymuned ac o gymryd rhan weithgar yn eu cymdeithas. Yn yr un modd, mae gwahaniaethu, p'un ai ar sail hil, rhyw neu unrhyw fath o wahaniaethu yn dwyn oddi ar bobl eu hurddas a'u gwerth. Ym mhob achos, mae'r alwad am ymagwedd gyffredin lle'r ystyrir fod gwerth gan bob person oherwydd cydraddoldeb y creu (Beates, 2012, tt. 130-131).

Fel y dywedwyd ynghynt, mae gwahaniaethu yn weithred o anghyfiawnder sy'n gwneud pobl yn ddi-rym. Mae'n dwyn urddas rhywun ac yn tynnu i ffwrdd y posibilrwydd o fyw bywyd hyd at eithaf gallu yr unigolyn, beth bynnag yw hyd a lled y gallu hwnnw. Yn aml mae stigma yn hybu gwahaniaethu hyd yn oed pan mae sail stigma o'r fath yn hen ffasiwn neu'n camddehongli testunau Beiblaidd. I Fiona a Joni, mae tynnu ar eu gwerth hanfodol fel y'u crëwyd ar ddelw Duw yn galluogi hunanddelwedd sy'n caniatáu iddyn nhw herio tueddiadau eithrio a dadlau o blaid cael eu cynnwys mewn llefydd torfol fydd yn eu cyfoethogi. Er nad ydynt yn cymryd rhan mewn dadleuon ysgolheigaidd neu ddiwinyddol i haeru eu safbwyntiau, mae'r ddwy yn dangos sut mae eu datganiad o berthnasau ysbrydol personol yn ei gwneud yn bosibl iddynt ymdopi â'u hanableddau. Fel y mae hyn yn dangos, gallai deall o'r newydd fod y ddynoliaeth i gyd wedi'i gwneud ar lun a delw Duw wella'n siwrne dorfol tuag at gyd-fyw cyfunol cyfiawn a heddychlon.

## Dolenni rhyngrwyd

https://www.oikoumene.org/resources/documents/a-church-of-all-and-for-all (Cyngor Eglwysi'r Byd 'A Church of All and for All', yn ymateb i faterion anabledd yn yr eglwys)

https://www.joniandfriends.org/sanctity-of-life-sunday/ (Joni Tada yn cyfweld â Nick Vujicic a Katherine Wolf ar sancteiddrwydd bywyd i bobl ag anableddau)

https://www.oikoumene.org/en/resources/documents/commissions/faith-and-order/v-theological-anthropology/christian-perspectives-on-theological-anthropology (Cyngor Eglwysi'r Byd, 'Christian Perspectives on Theological Anthropology')

## Pwyntiau trafod

1. Beth ydych chi'n ei ddeall gan yr honiad Cristnogol fod pob bod dynol wedi'u creu ar ddelw Duw?
2. Sut ac i ba raddau allai'r ddealltwriaeth fod dynoliaeth wedi'i gwneud ar ddelw Duw wella'r ymchwil am gydraddoldeb, cyfiawnder ac urddas i bawb?
3. Gan ystyried cyd-destunau Nigeraidd ac Americanaidd yr erthygl hon, sut fyddech chi'n esbonio'r pethau tebyg a'r pethau annhebyg rhwng profiadau Fiona a Joni?
4. Ym mha ffyrdd allai eich cymuned chi hyrwyddo cymdeithas gynhwysol i bawb, yn enwedig i bobl ag anabledd?
5. A yw'n dderbyniol trafod lles pobl ag anabledd heb eu cynnwys yn y trafodaethau?

## Cyfeiriadau


Ajayi, J., et al. (2020). Problems affecting the accessibility of physically-challenged individuals to intermediate public transport services in Oyo State, Nigeria. *Logistics & Sustainable Transport, 11*(1), 114-120.

Beates, S.B. (2012). *Disability and the gospel: How God uses our brokenness to display his grace.* Wheaton, Illinois: Crossway.

Cromwell, J.A. (2019). *Worthy: Society in search of the courage to accept disability through a lens of grace.* Houston, Texas: Ink City Press.

Fritzson, A. (1998). Reasons to rejoice: Christian joy in a secularized world. *Ecumenical Review, 50*(2), 132-136.

Fritzson, A. (2012). Impairment and accessibility. *Ecumenical Review, 64*(4), 489-499.

Fubara-Manuel, J. (2014). *Giver of life, hear our cries!* Geneva: World Council of Churches Publications.

Jenson, R. (2016). *A theology in outline: Can these bones live?* Oxford: Oxford University Press.

Obinna, Elijah. (2013). *Scottish missionaries in Nigeria: Foundations, transformation and development among the Amasiri (1927-1944).* New York: Edwin Mellen Press.

Oduyoye, M. (1995). Calling the church to account. *Ecumenical Review*, *47*(4), 479-489.

Tada, J.E. (1976). *Joni: The Unforgettable Story.* Grand Rapids, Michigan: Zondervan.

Tada, J.E. (1990). What does the gospel have to say to disabled persons? *Transformation*, *7*(1), 20-23.

Wills, R.W. (2009). *Martin Luther King Jr and the image of God.* Oxford: Oxford University Press.

World Council of Churches. (2005). Christian Perspectives on Theological Anthropology.

*Mae Jessie Fubara-Manuel yn fyfyriwr Doethuriaeth yn yr Ysgol Ddiwinyddiaeth, Prifysgol Caeredin sy'n ymchwilio i rôl ffydd Gristnogol i fenywod sy'n byw gyda HIV ac anableddau yn Nigeria. Enillodd Elijah Obinna ei Ddoethuriaeth o'r Ysgol Ddiwinyddiaeth, Prifysgol Caeredin. Roedd ymchwil ei ddoethuriaeth yn archwilio hunaniaethau ac arferion crefyddol cymhleth Cristnogion Nigeraidd-Affricanaidd oedd yn cydbwyso Cristnogaeth dan ddylanwad cenhadon â thraddodiadau a hunaniaethau crefyddol brodorol.*